



# Cod Ymarfer Uniondeb a Llywodraethu Gwaith Ymchwil

Fersiwn 4.0, Gorffennaf 2023

**Cynhelir gan Dîm Uniondeb Ymchwil, Llywodraethu a Moeseg  
(Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesedd)**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Cod Ymarfer hwn, neu Uniondeb Ymchwil a llywodraethu yn fwy cyffredinol, cysylltwch â'r tîm Uniondeb Ymchwil, Llywodraethu a Moeseg ([resgov@caerdydd.ac.uk](mailto:resgov@caerdydd.ac.uk)). Os ydych yn aelod o staff neu'n fyfyrwr ac mae eich ymholiad yn ymwneud â mater disgyblaeth-benodol neu arfer lleol, efallai y bydd eich Arweinydd Cywirdeb Ymchwil Ysgol neu Swyddog Moeseg yr Ysgol yn gallu cynnig cyngor a chymorth. Cyfeiriwch at [Atodiad 1](#) am y pwyntiau cyswllt lleol hyn.

**Cynnwys**

|                                                                                                     |           |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| <b>1. Datganiad Egwyddor.....</b>                                                                   | <b>1</b>  |
| 1.1 Cyflwyniad.....                                                                                 | 1         |
| 1.2 Cwmpas y Cod Ymarfer hwn.....                                                                   | 1         |
| 1.3 Amcanion Ymchwil .....                                                                          | 1         |
| 1.4 Colegoldeb .....                                                                                | 1         |
| 1.5 Rhagoriaeth.....                                                                                | 2         |
| 1.6 Diwylliant yr Ymchwil .....                                                                     | 2         |
| 1.7 Asesiadau cyfrifol o ymchwil .....                                                              | 2         |
| <b>2. Gwerthoedd ac Ymddygiadau Craidd.....</b>                                                     | <b>2</b>  |
| 2.1 Uniondeb.....                                                                                   | 3         |
| 2.2 Natur agored.....                                                                               | 3         |
| 2.3 Manyldeb .....                                                                                  | 3         |
| 2.4 Gofal a Pharch.....                                                                             | 4         |
| 2.5 Atebolrwydd a Chyfrifoldeb .....                                                                | 4         |
| <b>3. Safonau Ymchwil.....</b>                                                                      | <b>5</b>  |
| 3.1 Arweinyddiaeth a Goruchwyliaeth .....                                                           | 5         |
| 3.2 Hyfforddi a Datblygu.....                                                                       | 6         |
| 3.2.1 Cyfrifoldeb Ymchwilwyr Arweiniol/Goruchwylwyr.....                                            | 7         |
| 3.2.2 Hyfforddiant Uniondeb Ymchwil .....                                                           | 7         |
| 3.3 Gofynion Moesegol.....                                                                          | 8         |
| 3.4 Data a Chofnodion Ymchwil .....                                                                 | 9         |
| 3.5 Diogelu Data .....                                                                              | 11        |
| 3.6 Cydraddoldeb, Cynhwysiant ac Amrywiaeth .....                                                   | 12        |
| 3.7 Ymchwil Meinweoedd Dynol a Deddf Meinweoedd Dynol 2004 .....                                    | 12        |
| 3.8 Ymchwil sy'n Cynnwys Anifeiliaid .....                                                          | 13        |
| 3.9 Ymchwil Clinigol a Threialon Clinigol .....                                                     | 14        |
| 3.9.1 Fframwaith Polisi'r DU ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol.....                      | 14        |
| 3.9.2 Rheoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004 .....              | 15        |
| 3.9.3 Cofrestru Treialon Clinigol ac Ymchwil Glinigol ar Gronfeydd Data sydd ar gael i'r Cyhoedd .. | 15        |
| 3.10 Gwrthdaro rhwng Buddiannau.....                                                                | 16        |
| 3.11 Gwrth-lwgrwobrwy, Atal Twyll a Gwrth-lygredd.....                                              | 18        |
| 3.12 cydweithio.....                                                                                | 18        |
| 3.13 Cynnal Ymchwil Dramor.....                                                                     | 19        |
| 3.14 Eiddo Deallusol.....                                                                           | 19        |
| 3.15 'Ymchwil Dibynadwy' a rhyngwladoli.....                                                        | 21        |
| 3.15.1 Rheolyddion Allforio a Sanctiynau .....                                                      | 21        |
| 3.15.2 Deddf Diogelwch a Buddsoddiadau Cenedlaethol 2021.....                                       | 22        |
| 3.16 Ymchwil sy'n Sensitif o ran Diogelwch.....                                                     | 23        |
| 3.17 Cyhoeddiadau ac Awduriaeth .....                                                               | 23        |
| 3.17.1 Egwyddorion Cyhoeddi .....                                                                   | 23        |
| 3.17.2 Penderfynu ar Awduraeth .....                                                                | 25        |
| 3.17.3 Cydnabod y Cyfranwyr .....                                                                   | 25        |
| 3.17.4 Adolygu gan Gymheiriaid.....                                                                 | 26        |
| 3.17.5 Swyddogaethau Golygyddol.....                                                                | 26        |
| 3.18 Codi pryder ynghylch Uniondeb Ymchwil .....                                                    | 26        |
| 3.18.1 Camymddygiad Ymchwil .....                                                                   | 27        |
| 3.19 Gadael y Brifysgol .....                                                                       | 28        |
| 3.19.1 Staff.....                                                                                   | 28        |
| 3.19.2 Myfyrwyr .....                                                                               | 28        |
| <b>4. Datganiad i gloi.....</b>                                                                     | <b>29</b> |
| <b>5. Adolygiad a Chydnabyddiaethau.....</b>                                                        | <b>29</b> |
| Atodiad 1: Deunydd Ffynhonnell a Pholisïau a Chanllawiau Cysylltiedig .....                         | 30        |
| Atodiad 2: Geirfa o fyrfodau.....                                                                   | 35        |

## Rhagair

Ein gweledigaeth yw bod yn un o brifysgolion mwyaf blaenllaw'r byd, sy'n rhagorol o ran ymchwil ac yn neilltuol yn addysgol, yn cael ein gyrru gan greadigrwydd a chwilfrydedd. Rydym am fod yn brifysgol sy'n cyflawni ei rhwymedigaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gaerdydd, i Gymru, i'r Deyrnas Unedig ac i'r byd. ([Y Ffordd Ymlaen, 2018-2023](#)).

Mewn ymchwil, rydym yn dymuno bod ymhlith y gorau o ran cynhyrchu gwybodaeth, offer a pholisïau newydd mewn partneriaeth â diwydiant, y llywodraeth a rhanddeiliaid mawr eraill, wedi'u hwyluso gan ddiwylliant ymchwil cadarnhaol. Mae'r deilliannau ymchwil hyn yn rhan hanfodol o gyflymu'r cyfraniadau rydym yn eu gwneud i iechyd, cyfoeth, diogelwch a lles cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, yn y DU ac yn fyd-eang.

Mae uniondeb ymchwil, moeseg ac ymchwil agored yn rhan hanfodol o'r weledigaeth hon, ac fel Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesi a Menter a Chadeirydd Pwyllgor Moeseg ac Uniondeb Ymchwil Agored y Brifysgol, rwyf wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cael ein gweld fel arweinydd yn y maes hwn. Trwy ein [Cynllun Gweithredu Uniondeb Ymchwil](#), rydym yn gweithio'n galed i gryfhau'r gefnogaeth a ddarparwn i ymchwilwyr ymhellach yn y maes hwn ac rydym yn cymryd camau rhagweithiol i feithrin amgylchedd lle mae arfer ymchwil da yn cael ei werthfawrogi yn ogystal â'i alluogi. Gan weithio gyda'n cymuned ymchwil amrywiol a'n cydweithwyr dawnus, rydym yn ymdrechu i sicrhau mwy o gysondeb yn ein hymagwedd at adolygiad moesegol o brosiectau ymchwil a datblygu mentrau, fforymau ac adnoddau newydd i gefnogi ymchwil agored, diwylliant ymchwil cadarnhaol a'r safonau uchaf o uniondeb.

Mae ein hymagwedd at uniondeb ymchwil wedi'i ddatblygu yn unol â'n hymrwymiad a chefnogaeth y Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil yn ogystal â Pholisi UKRI ar Lywodraethu Arfer Ymchwil Da. Mae gennym strwythurau a threfniadau llywodraethu cadarn er mwyn helpu i gefnogi uniondeb ymchwil ac rydym yn danysgrifiwr i [Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU](#) ac yn aelod gweithgar o Fforwm Uniondeb Ymchwil Grŵp Russell a [Rhwydwaith Atgynhyrchu'r DU](#). Drwy'r fforymau hyn, a nifer helaeth o rai eraill, rydym yn cyfrannu at welliannau ar draws y sector ac yn cymryd camau i hybu uniondeb ymchwil y DU drwy rannu arfer gorau a chydweithio i ddylanwadu ar lunwyr polisi a datblygu offer ac adnoddau ymarferol.

Y Cod Ymarfer Uniondeb Ymchwil a Llywodraethu hwn (Cod Ymarfer) yw ein fframwaith sefydliadol ar gyfer arfer ymchwil da. Mae'n amlinellu ein disgwyliadau a'r polisïau, gweithdrefnau, canllawiau ac adnoddau hyfforddi cysylltiedig rydym wedi'u datblygu, sydd wedi'u cynllunio i helpu ein staff a'n myfyrwyr i gyflwyno ymchwil ragorol gydag uniondeb.

Rydym yn disgwyl i'n holl staff a myfyrwyr sy'n ymwneud ag ymchwil ymgyfarwyddo â'r Cod Ymarfer, felly byddwch cystal â threulio amser yn darllen y ddogfen hon ac ewch i'r adnoddau y cyfeirir atynt ynddi. Mae'r Cod Ymarfer wedi'i ddylunio i'ch helpu chi ddatblygu dealltwriaeth fanwl o ymarfer da mewn ymchwil, gan gefnogi eich datblygiad fel ymchwilydd neu alluogwr ymchwil.

Drwy greu cymuned ymchwil sy'n unedig o ran ein hymrwymiad i ddarparu'r safonau uchaf o ran cyflawniad academiaidd, gallwn sicrhau bod Prifysgol Caerdydd yn parhau'n arweinydd sector ym maes uniondeb ymchwil.

**Yr Athro Roger Whitaker**

**Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesedd a Menter**

## 1. Datganiad Egwyddor

### 1.1 Cyflwyniad

Mae Uniondeb Ymchwil yn derm arall am “arfer ymchwil da”. Mae’n golygu gweithredu mewn ffordd sy’n hybu ymddiriedaeth a hyder mewn ymchwil a chadw at y safonau cyfreithiol, moesegol a phroffesiynol sy’n hanfodol i gynnal ymchwil yn ddiogel ac yn gyfrifol.

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'w holl staff a myfyrwyr gadw at y safonau uchaf o Uniondeb Ymchwil pryd bynnag y byddant yn ymwneud â gweithgaredd ymchwil a helpu i feithrin diwylliant o uniondeb a phroffesiynoldeb bob amser. Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi'i gynllunio i hyrwyddo ymddygiad da drwy gydol y cylch bywyd ymchwil ac mae'n berthnasol i bob cam o brosiect ymchwil a phob disgyblaeth ymchwil. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gefnogi ei staff a'i myfyrwyr pan fyddant yn bodloni disgwyliadau'r Cod Ymarfer hwn a'r [Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil](#) dan amgylchiadau anodd.

Gall torri'r Cod Ymarfer hwn fod yn sail ar gyfer camau disgyblu a/neu gall fod yn gyfystyr â chamymddygiad ymchwil, yn dibynnu ar natur a difrifoldeb yr achos.

### 1.2 Cwmpas y Cod Ymarfer hwn

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn berthnasol i unrhyw un sy'n cynnal neu'n cefnogi ymchwil dan nawdd y Brifysgol. Mae hyn yn berthnasol, ond heb fod yn gyfyngedig, i'r holl staff a myfyrwyr sy'n ymwneud ag ymchwil yn y Brifysgol, gan gynnwys staff a'i myfyrwyr sy'n cynnal ymchwil y tu allan i'r Brifysgol ond fel rhan o'u rôl yn y Brifysgol, yn ogystal ag unrhyw un nad yw'n cael ei gyflogi gan y Brifysgol ond sydd â chaniatâd i gynnal ymchwil yn y Brifysgol (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel ‘Ymchwilwyr’).

### 1.3 Amcanion Ymchwil

Prif amcan ymchwil yw dyfnhau ac ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth drwy ddulliau arbenigol, cyfrifol a phroffesiynol, gan gynnwys lledaenu canlyniadau drwy ystod o allbynnau wedi'u teilwra sy'n addas ar gyfer y gynulleidfa darged.

Dylai ymchwil hefyd geisio bodloni'r amcanion ychwanegol a ganlyn:

- i. Hyfforddi Ymchwilwyr newydd mewn dulliau priodol a safonau proffesiynol;
- ii. Hyrwyddo buddiannau a manteision ymchwil;
- iii. Ymelwa ar ganlyniadau er lles y cyhoedd a budd y Brifysgol a'i staff a'i myfyrwyr.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall fod yn anodd pennu a yw gweithgaredd penodol yn “Ymchwil” ar adegau, yn enwedig yng ngoleuni'r llu o ddiffiniadau a ddefnyddir ar draws y sector a'r ffordd y caiff gweithgaredd penodol ei ariannu neu ei labelu'n lleol. Wrth aros i ddiffiniadau a chanllawiau ar lefel Prifysgol gael eu datblygu yn y maes hwn, dylai Ymchwilwyr ofyn am gyngor os ydynt yn aneglur ynghylch a yw gweithgaredd penodol yn “Ymchwil” a dylent nodi'r canllawiau presennol ar gategoreiddio gweithgaredd sy'n derbyn cyllid cyfnewid gwybodaeth ac arloesi (gweler [Atodiad 1](#)).

### 1.4 Colegoldeb

Mae'r Brifysgol yn gymuned amrywiol, ryngddisgyblaethol o ysgolheigion ac Ymchwilwyr sydd mewn sawl ffordd yn dibynnu ar ei gilydd. Fel sefydliad ac fel unigolion, mae'n bwysig cefnogi'r syniad o golegoldeb effeithiol. Rhaid i ymchwilwyr ystyried a yw eu gweithgareddau yn debygol o

effeithio ar gydweithwyr eraill, grwpiau ymchwil, Ysgolion, Sefydliadau Ymchwil, Colegau neu'r Brifysgol yn ei chyfanrwydd. Mae angen i ymchwilwyr fod yn ymwybodol o oblygiadau uniongyrchol a hirdymor posibl eu gweithredoedd arfaethedig a cheisio gweithredu mewn modd colegol bob amser.

## 1.5 Rhagoriaeth

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i bob Ymchwilydd ymdrechu at gyflawni rhagoriaeth wrth lunio a gweithredu ymchwil a chynhyrchu a rhannu gwaith o'r radd flaenaf. Bwriad y Cod Ymarfer hwn yw ategu'r nod hwn.

## 1.6 Diwylliant yr Ymchwil

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i hyrwyddo diwylliant ymchwil sy'n gefnogol, yn greadigol, yn gydweithredol, yn gynhwysol, yn agored, yn dryloyw ac yn onest. Mae'r Brifysgol yn disgwyl i bob Ymchwilydd ymgorffori'r gwerthoedd hyn yn eu holl weithgarwch, gan gyfrannu at ddiwylliant ymchwil cadarnhaol sy'n galluogi ymchwil i gael ei gynnal i'r safonau uchaf o onestrwydd ac yn galluogi Ymchwilwyr i lwyddo a datblygu. Mae diwylliant ymchwil cadarnhaol o fudd i bawb sy'n ymwneud ag ymchwil a gall helpu i wella ansawdd ymchwil a denu a dal gafael ar y bobl fwyaf talentog.

Mae rhagor o wybodaeth am ymrwymadau a blaenoriaethau diwylliant ymchwil y Brifysgol, gan gynnwys y cynnig "[Trawsnewid Diwylliant Ymchwil](#)" sy'n anelu at fynd i'r afael ag unrhyw faterion systemig neu strwythurol sy'n effeithio ar boblogaeth ymchwil y Brifysgol, ar gael ar y fewnwyd (gweler [Atodiad 1](#)).

## 1.7 Asesiadau cyfrifol o ymchwil

Mae Prifysgol Caerdydd wedi llofnodi [Datganiad San Francisco ar Asesu Ymchwil](#) (DORA), ac wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo'r defnydd cyfrifol o fetrigau a dangosyddion meintiol ymchwil.

Mae DORA yn ein hymrwymo i asesu pob math o ymchwil drwy broses o adolygu ansoddol yn hytrach na defnyddio mesurau dirprwyol megis cyhoeddi mewn cyfnodolion â ffactor effaith uchel. Mae sicrhau bod allbynnau ymchwil yn cael eu hasesu ar sail eu teilyngdod eu hunain, gan osgoi defnyddio metrigau yn seiliedig ar gyfnodolion, yn helpu i sicrhau ystyriaeth dryloyw a theg o ansawdd ymchwil a chyfraniadau ymchwilwyr ar wahanol gamau gyrfa. Mae hefyd yn cadarnhau ein hymrwymiad i gydnabod y gyfres amrywiol o allbynnau ymchwil wrth wneud penderfyniadau ariannu, recriwtio a dyrchafu.

Ceir rhagor o wybodaeth, adnoddau a chysylltiadau ar y fewnwyd (gweler [Atodiad 1](#)).

## 2. Gwerthoedd ac Ymddygiadau Craidd

**Nodyn Atgoffa:** Mae'r Cod Ymarfer hwn yn berthnasol i bawb sy'n cynnal neu'n cefnogi ymchwil o dan nawdd y Brifysgol, gan gynnwys pob aelod o staff a myfyrwyr sy'n ymwneud ag ymchwil. Cyfeirir at bob unigolyn o'r fath gyda'i gilydd fel "Ymchwilwyr" trwy gydol y ddogfen hon.

Seilir Uniondeb Ymchwil ar set o werthoedd craidd sy'n helpu i gyflawni a hyrwyddo arfer ymchwil da a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn ymchwil. Bydd ymrwymiad i'r gwerthoedd craidd hyn yn helpu i sicrhau nad yw Uniondeb Ymchwil yn broses fecanyddol yn unig, ond wedi'i hymgorffori yn y broses ddyddiol o wneud penderfyniadau a myfyrio.

Disgwylir i ymchwilwyr ymgorffori'r gwerthoedd a'r ymddygiadau craidd hyn yn eu holl ymdrechion academaidd. Mae cynnal y safonau uchaf o uniondeb yn hanfodol nid yn unig wrth gynnal ymchwil, ond hefyd wrth ddylunio ac adrodd ar ymchwil ac wrth gynnal gweithgaredd sy'n gysylltiedig â chylch bywyd ymchwil megis adolygu gan gymheiriaid, swyddogaethau golygyddol, effaith ac ymgysylltu, cyfnewid gwybodaeth, arloesi ac ymgynghori. Ymdrinnir ymhellach â swyddogaethau adolygu gan gymheiriaid a swyddogaethau golygyddol yn [3.17.4](#) a [3.17.5](#). Ceir canllawiau ac adnoddau yn y meysydd eraill y cyfeirir atynt yn [Atodiad 1](#).

## 2.1 Uniondeb

Rhaid meithrin diwylliant o onestrwydd ym mhob maes gweithgarwch ymchwil.

Rhaid i ymchwilwyr fod yn onest o ran eu gweithredoedd eu hunain ac yn eu hymatebion i weithredoedd ymchwilwyr eraill. Mae hyn yn cynnwys bod yn onest wrth gyflwyno nodau, bwriadau a chanfyddiadau gwaith ymchwil; wrth adrodd am ddulliau a gweithdrefnau gwaith ymchwil; wrth gasglu a dadansoddi data; wrth ddefnyddio a chydabod gwaith pobl eraill; wrth wneud dehongliadau dilys a honiadau y gellir eu cyfiawnhau ar sail canfyddiadau gwaith ymchwil ac wrth rannu allbynnau ymchwil. Rhaid i ymchwilwyr beidio â chamymddwyn na chuddio camymddygiad ac mae'n ddyletswydd arnynt i roi gwybod am achosion posibl o gamymddwyn mewn ffordd briodol ([gweler 3.18.1](#)).

## 2.2 Natur agored

Dylai dulliau, canlyniadau a data ymchwil sy'n cefnogi'r canlyniadau hynny fod yn agored i graffu, trafodaeth a dadl. Yn amodol ar ystyriaethau megis cyfrinachedd a diogelu hawliau eiddo deallusol, dylai Ymchwilwyr fod yn agored ag Ymchwilwyr eraill a'r cyhoedd ynghylch eu gwaith a hyrwyddo cyfnewid agored o syniadau a gwybodaeth. Dylai cyfathrebu fod yn dryloyw ac yn agored wrth ddatgan gwrthdaro rhwng buddiannau; wrth adrodd ar ddulliau casglu data ymchwil; wrth ddadansoddi a dehongli data; wrth wneud darganfyddiadau ymchwil i fod ar gael yn eang, gan gynnwys rhannu canlyniadau negyddol neu ganlyniadau 'nwl' er mwyn cydnabod eu gwerth fel rhan o'r broses ymchwil; ac wrth gyflwyno gwaith i ymchwilwyr eraill a'r cyhoedd.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gefnogi ei Hymchwilwyr i fabwysiadu arferion Ymchwil Agored ac mae wedi cyhoeddi [Datganiad Sefyllfa Ymchwil Agored](#) sy'n crynhoi'r egwyddorion allweddol ar gyfer cynnal a chefnogi Ymchwil Agored ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae'r Brifysgol yn Brifysgol Mynediad Agored ac yn aelod o [Rwydwaith Atgynhyrchu'r DU](#), y consortiwm cenedlaethol a arweinir gan gymheiriaid ar gyfer hyrwyddo arfer gorau mewn Ymchwil Agored. Mae'r Brifysgol yn cefnogi'r [Concordat ar Ddata Ymchwil Agored](#) ac yn disgwyl i'r holl allbynnau a data ymchwil gael eu gwneud "*mor agored â phosibl, wedi'u cau yn ôl yr angen*" yn unol ag egwyddorion data FAIR. Cyfeiriwch at [3.4](#) a [3.17.1](#) i gael rhagor o wybodaeth am ofynion a disgwyliadau'r Brifysgol ar Ddata Agored a Mynediad Agored. Cyfeiriwch hefyd at [Atodiad 1](#) am adnoddau mewnol ac allanol pellach ar Ymchwil Agored ac Atgynhyrchedd.

## 2.3 Manyldeb

Rhaid i Ymchwilwyr gynnal eu gwaith i'r safonau uchaf o fanyldeb, yn unol a'r arferion a safonau disgyblu cyffredinol. Bydd hyn yn helpu i gryfhau dilysrwydd ac atgynhyrchedd ymchwil. Rhaid i ymchwilwyr ymgymryd â hyfforddiant priodol er mwyn cynnal ymchwil hyd at y safonau a ddisgwylir. Rhaid cymhwyso trylwyrdd wrth ddewis dulliau ymchwil; wrth gynnal gwaith ymchwil; wrth gadw at brotocolau y cytunwyd arnynt pan fo hynny'n briodol; wrth ddadansoddi data ymchwil; wrth lunio dehongliadau a chasgliadau'r gwaith ymchwil; wrth ddilysu'r canlyniadau cyn eu cyhoeddi; ac wrth gyfathrebu'r canlyniadau.

## 2.4 Gofal a Pharch

Rhaid trin pawb sy'n gysylltiedig â gwaith ymchwil, boed yn cymryd rhan neu'n destun yr ymchwil, gyda pharch a gofal. Mae hyn yn cynnwys pobl, anifeiliaid, yr amgylchedd a gwrthrychau diwylliannol. Rhaid i Ymchwilwyr fynd i'r afael ag unrhyw bryder sy'n ymwneud ag urddas, hawliau, diogelwch a llesiant pawb sy'n ymwneud ag ymchwil. Rhaid i ymchwilwyr hefyd ddangos gofal a pharch at bob aelod o'r tîm ymchwil a chydweithwyr cefnogol, am stiwardiaeth ymchwil, uniondeb y cofnod ymchwil ac ysgolheictod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Sylwer bod disgwyl i staff a myfyrwyr y Brifysgol ymlynu wrth ddisgwyliadau ymddygiadol ehangach y Brifysgol a thrin ei gilydd â pharch, cwrteisi ac ystyriaeth, fel y cadarnhawyd ym [Mholisi Urddas yn y Gweithle ac Astudio'r](#) Brifysgol. Cyfeiriwch at [Atodiad 1](#) am adnoddau pellach yn ymwneud ag ymddygiad, urddas a lles.

Rhaid rhoi gofal a sylw dyladwy i faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy gydol y broses ymchwil (am ragor o fanylion am hyn a gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, gweler [3.6](#)).

## 2.5 Atebolrwydd a Chyfrifoldeb

Yr Ymchwilydd unigol sydd yn bennaf gyfrifol am ddiogelu uniondeb ymchwil. Eu cyfrifoldeb hwy yw sicrhau bod eu gwaith yn bodloni'r holl safonau perthnasol a'r egwyddorion a amlinellir yn y Cod Ymarfer hwn a'r [Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil](#). Mae'n hanfodol bod Ymchwilwyr yn myfyrio ar ystyriaethau Uniondeb Ymchwil yn ystod cam dylunio prosiect er mwyn helpu i sicrhau bod yr ymchwil yn cael ei gynnal i'r safonau uchaf ac er mwyn helpu i ragweld unrhyw faterion posibl a allai godi. Cyfeiriwch at [Atodiad 1](#) am “restr wirio ar gyfer ymchwilwyr” ddefnyddiol a gynhyrchwyd gan Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU (UKRIO).

Mae gan ymchwilwyr ddyletswydd i fod yn atebol i gymdeithas, i'w proffesiwn, i'r Brifysgol ac i gyllidwyr a chyhoeddwyd gwaith ymchwil. Mae hyn yn cynnwys derbyn cyfrifoldeb llawn am broffesiynoldeb ac uniondeb bob agwedd ar ddylunio, cynnal a chyhoeddi eu hymchwil a gweithgareddau unrhyw staff neu fyfyrwyr o dan eu cyfarwyddyd.

Mae Ymchwilwyr yn gyfrifol am gymryd camau i sicrhau diogelwch y rhai sy'n gysylltiedig â'r ymchwil, rheolaeth ariannol y prosiect ymchwil, ac am geisio darparu'r gwerth gorau posibl am y cyllid cyhoeddus neu breifat a fuddsoddir yn y prosiect. Rhaid i Ymchwilwyr gydymffurfio â pholisïau a chanllawiau'r Brifysgol ac unrhyw ofynion cyfreithiol a pholisi sy'n rheoleiddio eu maes ymchwil, yn enwedig yr egwyddorion sylfaenol sy'n ymwneud â moeseg, data, cyllid ac iechyd a diogelwch. Mae gan y Brifysgol ystod o bolisïau, canllawiau ac adnoddau i gefnogi Ymchwilwyr gyda rheolaeth ariannol ddarbodus ac i fodloni gofynion iechyd a diogelwch (gweler [Atodiad 1](#)).

Disgwylir i staff academiaidd sy'n ymwneud ag ymchwil gadw at yr egwyddorion a'r disgwyliadau a geir yn yr '[Academydd Caerdydd](#)'. Disgwylir i Ymchwilwyr sy'n aelodau o broffesiwn a reoleiddir ddilyn gofynion a chanllawiau eu proffesiwn.

Rhaid i Ymchwilwyr sicrhau bod yr holl waith a wneir yn gyson ag unrhyw gytundebau, canllawiau a/neu delerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r prosiect a'r cyllid. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y gwaith yn cael ei gynnal fel y caiff ei ddiffinio yn y cynnig gwreiddiol; bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio at y diben y'i bwriadwyd yn unig; bod adroddiadau'n fanwl gywir; a chydymffurfiaeth ag unrhyw amodau o ran cyhoeddi, rheoli data ac eiddo deallusol. Mae'n rhaid adrodd am fethiannau yn unrhyw un o'r agweddau hyn, neu achosion o gamymddwyn yn unol â gofynion y prosiect a'r Brifysgol.



Yn ogystal ag atebolrwydd a chyfrifoldeb unigol, mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb sefydliadol i ymgorffori diwylliant o Uniondeb Ymchwil ac i gael polisiâu, systemau a strwythurau sy'n galluogi Ymchwilwyr i gyrraedd y safonau uchaf o Uniondeb Ymchwil. Mae'r cyfrifoldeb sefydliadol hwn, a llawer o rai eraill, wedi'u cynnwys yn y Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil. Mae gan y Brifysgol amrywiaeth o offer, systemau a strwythurau i fodloni ei chyfrifoldebau o dan y Concordat ac i gefnogi ei Hymchwilwyr i wneud yr un peth, a chyfeirir at y rhan fwyaf ohonynt yn y Cod Ymarfer hwn. Mae gan y Brifysgol bwyllgor penodedig (y Pwyllgor Cywirdeb Ymchwil Agored a Moeseg (ORIEC)) sydd â chyfrifoldebau strategol a throsolwg penodol yn y maes hwn.

### 3. Safonau Ymchwil

**Nodyn Atgoffa:** Mae'r Cod Ymarfer hwn yn berthnasol i bawb sy'n cynnal neu'n cefnogi ymchwil o dan nawdd y Brifysgol, gan gynnwys pob aelod o staff a myfyrwyr sy'n ymwneud ag ymchwil. Cyfeirir at bob unigolyn o'r fath gyda'i gilydd fel "Ymchwilwyr" trwy gydol y ddogfen hon.

#### 3.1 Arweinyddiaeth a Goruchwyliaeth

Polisi'r Brifysgol yw bod Ymchwilwyr yn cael goruchwyliaeth ddigonol. Rhaid i ymchwilwyr ymglyfarwyddo â disgwyliadau goruchwyliaeth ac arsylwi'r Brifysgol, ochr yn ochr â rhai eu grŵp ymchwil, Ysgol, Sefydliad a/neu Goleg. Disgwylir fel rheol i Ymchwilwyr adrodd i Arweinydd Grŵp, Prif Ymchwilydd neu, yn achos myfyrwyr, Goruchwylwr neu Arweinydd Modiwl.

Arweinydd /Goruchwylwr prosiect ymchwil sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob Ymchwilydd dan eu goruchwyliaeth/rheolaeth wedi cael gwybod yn briodol am eu cyfrifoldebau dan y Cod Ymarfer hwn, a'u bod yn llunio, cynnal ac adrodd gwaith ymchwil yn unol â'i ddarpariaethau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau'r canlynol:

- i. bod ymchwil yn cael ei dylunio a'i chynnal yn unol â'r holl ganllawiau perthnasol (gan gynnwys gweithdrefnau iechyd a diogelwch), a chymeradwyaeth wedi'i sicrhau gan bob corff angenrheidiol cyn i'r ymchwil ddechrau (gydag unrhyw ddiwygiadau arfaethedig hefyd yn cael eu cymeradwyo, lle bo angen);
- ii. bod asesiad risg o'r prosiect arfaethedig yn cael ei gynnal i bennu'r risgiau posibl i'r sefydliad, yr ymchwil, diogelwch a diogelwch a lles y rhai sy'n ymwneud â'r ymchwil (e.e. cyfranogwyr ac ymchwilwyr), yr amgylchedd a chymdeithas yn fwy cyffredinol (e.e. risgiau diogelwch/a risg y gallai canlyniadau'r ymchwil gael eu camddefnyddio at ddibenion niweidiol);
- iii. bod y prosiect yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a moesegol perthnasol, gan gynnwys sicrhau bod urddas, hawliau, lles a diogelwch unrhyw gyfranogwyr ymchwil yn cael eu cynnal;
- iv. bod gan yr Ymchwilydd ymwybyddiaeth drylwyr o ofynion ac ystyriaethau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac yn rhannu'r wybodaeth honno â'r rhai sydd dan ei arweiniad;
- v. bod aelodau'r tîm ymchwil yn gymwys ac yn brofiadol i gyflawni eu rolau gan gynnwys sicrhau bod myfyrwyr ac Ymchwilwyr yn cael goruchwyliaeth, cymorth a hyfforddiant digonol a'u bod wedi cynnal gwiriadau priodol lle bo angen, ee gwiriadau diogelwch/DBS;
- vi. bod gweithdrefnau yn eu lle i gasglu, storio, rheoli a chadw data o ansawdd uchel yn ddiogel ac, yn amodol ar gyfyngiadau cyfreithiol, moesegol a masnachol, sicrhau bod data o'r fath ar gael ar ôl cwblhau'r prosiect. Dylid manylu ar y gweithdrefnau hyn mewn cynllun rheoli data;
- vii. bod adroddiadau ar gynnydd/canlyniadau ymchwil yn cael eu paratoi'n brydlon ac i safon dderbyniol;
- viii. bod canlyniadau ymchwil yn cael eu dosbarthu'n brydlon ac yn cael eu bwydo'n ôl i'r rhai sy'n cymryd rhan fel bo'n briodol;



- ix. bod canfyddiadau yn agored i adolygiad drwy sianeli gwyddonol a phroffesiynol a dderbynnir a bod data ymchwil yn cael ei gofrestru'n briodol i hwyluso'r gwaith canfod a mynediad;
- x. bod trefniadau ar waith i reoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill a ddarperir ar gyfer y prosiect, ac unrhyw eiddo deallusol sy'n codi ohonynt;
- xi. mae'r Ymchwilydd yn cymryd cyfrifoldeb am bob agwedd ar uniondeb ymchwil sy'n ymwneud â'r prosiect ac unrhyw gyhoeddiad, gan gynnwys adrodd am unrhyw gamymddwyn a ganfyddir;
- xii. y gwneir darpariaeth ar gyfer parhau i reoli data ymchwil, cofnodion a samplau os bydd Ymchwilydd yn gadael y Brifysgol;
- xiii. sicrhau bod cytundeb ffurfiol ar waith ynglŷn â pherchnogaeth data a materion perthnasol eraill cyn dechrau gweithio ar y cyd ar brosiect gyda sefydliadau allanol.

Disgwylir i Arweinwyr/Goruchwylwyr feithrin diwylliant Uniondeb Ymchwil a sefydlu amgylchedd gefnogol a chydweithrediad yn eu tîm, gan ddatblygu ffordd agored o gyfnewid syniadau a sicrhau bod arferion rheoli cadarn yn bodoli i ddiogelu uniondeb y gwaith ymchwil. Rhaid i Ymchwylwyr newydd (yn cynnwys myfyrwyr ymchwil) gael mynediad at y Cod Ymarfer hwn, ac at unrhyw ganllawiau priodol eraill ynglŷn ag arfer gorau. Rhaid i Arweinwyr/Goruchwylwyr sicrhau nad yw Ymchwylwyr yn cael eu rhoi dan bwysau masnachol neu unrhyw fath o bwysau bwysau arall sy'n atal trywydd arferol ymchwiliad trylwyr a gonest. Cyfeiriwch at [3.2.1](#) ar ddisgwyliadau arweinwyr/Goruchwylwyr ymchwil mewn perthynas â hyfforddiant a datblygiad.

### 3.2 Hyfforddi a Datblygu

Cyfrifoldeb personol Ymchwylwyr yw sicrhau bod ganddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r hyfforddiant angenrheidiol i gynnal eu hymchwil. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant mewn arfer da cyfredol ac unrhyw ofynion cyfreithiol, moesegol neu broffesiynol penodol sy'n berthnasol i'w maes ymchwil. Mae hefyd yn ofynnol i staff gwblhau ystod o gyrsiau hyfforddi gorfodol, ac mae rhestr ohonynt ar gael [yma](#).

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r [Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwylwyr](#) sy'n nodi tair egwyddor glir, sef 'amgylchedd a diwylliant', 'cyflogaeth', a 'datblygiad proffesiynol a gyrfa' ac sy'n cynnwys cyfrifoldebau ar gyfer grwpiau rhanddeiliaid allweddol. Mae'r Concordat yn cydnabod bod '*angen ymagwedd ragweithiol a chydweithredol rhwng yr holl randdeiliaid, i greu a datblygu amgylcheddau a diwylliannau cadarnhaol lle gall pob ymchwilydd ffynnu a chyflawni ei lawn botensial*'. Fel llofnodwr i'r Concordat, mae cyfrifoldeb ar y cyd rhwng y Brifysgol, ei staff ymchwil a'u rheolwyr i sicrhau bod staff ymchwil yn cymryd rhan mewn o leiaf 10 diwrnod o ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP), pro rata, bob blwyddyn.

Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer hyfforddi a datblygu er mwyn galluogi staff a myfyrwyr ymchwil i feithrin sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer eu rôl bresennol, ac i gefnogi datblygiad eu gyrfa yn y dyfodol. Bydd hyfforddiant mewn sgiliau penodol i ddisgyblaeth sy'n ymwneud â gwaith ymchwil fel arfer yn cael ei gynnig ar lefel Ysgol, Sefydliad Ymchwil neu grŵp ymchwil, fel sy'n briodol. Dylid rhoi sylw arbennig i ddarparu hyfforddiant i Ymchwylwyr dibrofiad yn yr holl sgiliau sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith.

Mae'r Tîm Datblygu Staff yn gyfrifol am gefnogi hyfforddiant staff ar draws y Brifysgol, ac mae is-dîm Datblygu Ymchwylwyr pwrpasol sy'n gyfrifol yn benodol am staff ymchwil. Mae'r Rhaglen 'Ymchwilydd Caerdydd' yn cynnwys yr holl weithdai sgiliau trosglwyddadwy, traws-ddisgyblaethol a ddarperir ar gyfer staff ar lwybr gyrfa Ymchwil gan isadran datblygu staff canolog y Brifysgol. Caiff yr hyfforddiant hwn ei drefnu o gwmpas y pedwar parth a nodir yn y [Fframwaith Datblygu Ymchwylwyr](#) (a ddatblygwyd gan Vitae): gwybodaeth a galluoedd deallusol; effeithiolrwydd personol; llywodraethu a threfnu ymchwil; ac ymgysylltiad, dylanwad ac effaith. Yn ogystal, mae

gan staff sy'n ymwneud â gwaith ymchwil fynediad at y Rhaglen Datblygu Staff ehangach, a gyhoeddir yn flynyddol i bob aelod o staff, ac sy'n cynnwys llawer o gyrsiau yn y maes ymchwil. I gael rhagor o wybodaeth am hyfforddiant a datblygu gyrfa ar gyfer Ymchwilwyr, gweler Atodiad 1.

Ysgolion Academiaidd sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod eu myfyrwyr ymchwil yn cael mynediad at hyfforddiant priodol. I'r perwyl hwn, Ysgolion sy'n gyfrifol am gyflwyno neu gaffael y sgiliau, dulliau a thechnegau ymchwil sy'n benodol i'w disgyblaeth a'u cyd-destun ymchwil lleol. Er mwyn ategu datblygiad sgiliau trosglwyddadwy a gyflwynir gan Ysgolion, mae Academi Doethuriaeth y Brifysgol yn darparu rhaglen o sgiliau ymchwil cyffredinol, proffesiynol a datblygu gyrfa, sydd wedi'u mapio i'r pedwar maes a nodir yn y [Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr](#) (a ddatblygwyd gan Vitae) a gwahanol gamau taith y myfyriwr. Am ragor o fanylion, trowch at [Atodiad 1](#).

### 3.2.1. Cyfrifoldeb Ymchwilwyr Arweiniol/Goruchwylwyr

Mae'n bolisi gan y Brifysgol fod Ymchwilwyr yn cael goruchwyliaeth ddigonol gan eu Hymchwilwyr Arweiniol/Goruchwylwyr, ynghyd ag adolygiadau rheolaidd o'u cynnydd. Mae nodi anghenion hyfforddi a datblygu ynghyd â darparu cyngor gyrfa yn elfennau allweddol o'r [broses Adolygu Datblygiad Perfformiad](#) ar gyfer staff a'r [broses Monitro Cynnydd Myfyrwyr Ymchwil](#). Cyfrifoldeb y Prif Ymchwilydd/Goruchwylwr yw gweithio gyda staff/myfyrwyr ymchwil i nodi dogfennu eu hanghenion hyfforddi a sut cânt eu bodloni. Yn achos myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig, dylid gwneud hyn yn unol â'r [Polisi a'r Weithdrefn ar Fonitro Myfyrwyr Ymchwil](#) a'r [Polisi ar Sefydlu a Hyfforddi Myfyrwyr Ymchwil](#).

Mae'n bwysig bod Ymchwilwyr Arweiniol/Goruchwylwyr yn datblygu'r sgiliau priodol mewn perthynas â datblygu eu staff a'u cyfrifoldebau rheoli. Mae gan y Brifysgol amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi arweinyddiaeth, goruchwyliaeth a rheolaeth i helpu gyda hyn (gweler [Atodiad 1](#)). Disgwylir i unigolion â chyfrifoldebau goruchwylwio gadw at yr egwyddorion a'r disgwyliadau goruchwylwio a geir yn yr '[Academydd Caerdydd](#)', yn ogystal â pholisïau perthnasol sy'n ymwneud â myfyrwyr lle bo'n berthnasol, megis y [Polisi ar Oruchwylwio Myfyrwyr Ymchwil](#) a'r [Polisi ar Gyfrifoldebau Goruchwylwyr](#). Argymhellir hefyd i oruchwylwyr myfyrwyr sy'n gwneud ymchwil gwblhau modiwl hyfforddi ar-lein y Brifysgol ar oruchwylwio graddau ymchwil.

Wrth ddarparu cymorth gyrfa, dylai Ymchwilwyr Arweiniol/goruchwylwyr ddefnyddio gwasanaethau cymorth ac adnoddau'r Brifysgol a dylent ddod yn gyfarwydd â chynlluniau a rhaglenni mentora'r Brifysgol. Gall mentora fod yn ffordd wych o helpu unigolion i gyflawni eu llawn botensial ac mae iddo fanteision diwylliannol cadarnhaol; mae'n rhoi fforwm amgen i'r rhai sy'n cael eu mentora ar gyfer trafodaeth agored am ddatblygiad gyrfa a chyfle i elwa ar gyngor gan gydweithiwr profiadol ac yn rhoi cyfle i fentoriaid fyfyrwyr ar eu nodau a'u hymarfer eu hunain ac i ddatblygu sgiliau hyfforddi ac arwain. Am ragor o wybodaeth ac adnoddau, gan gynnwys Fframwaith Arwain a Rheoli'r Brifysgol a'i rhaglenni mentora, gweler [Atodiad 1](#).

### 3.2.2 Hyfforddiant Uniondeb Ymchwil

Mae'r Brifysgol wedi datblygu [rhaglen hyfforddi ar-lein Uniondeb Ymchwil](#) unigryw i gynorthwyo Ymchwilwyr i ddeall eu cyfrifoldebau a sicrhau bod ymchwil yn cael ei chynnal i'r safonau uchaf o onestrwydd. Mae'r hyfforddiant wedi'i gymeradwyo gan ORIEC (a chafodd ei adolygu'n wreiddiol a'i gymeradwyo gan bwyllgor rhagflaenol ORIEC) acmae cwblhau'r hyfforddiant yn orfodol ar gyfer Staff Academiaidd ac i fyfyrwyr sy'n cwblhau rhaglen Doethurol, MPhil neu MRes.<sup>1</sup> Mae cwblhau'r hyfforddiant hefyd yn orfodol i staff a myfyrwyr (a goruchwylwyr) sy'n gwneud cais i Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol am adolygiad moesegol o'u prosiect ymchwil. Mae'r holl staff a myfyrwyr eraill sy'n ymwneud ag ymchwil yn y Brifysgol yn cael eu hannog yn gryf i gwblhau'r

<sup>1</sup> Noder y gall y grwpiau staff a myfyrwyr sy'n gorfod cyflawni'r rhaglen hyfforddiant newid o bryd i'w gilydd. Cyfeiriwch at dudalennau'r Fewnwyd sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 ar gyfer y rhestr ddiweddaraf.

hyfforddiant. Sylwer y gall Ysgolion benderfynu gofyn am gategorïau ychwanegol o staff neu fyfyrwyr i orfod cwblhau'r hyfforddiant.

Serch pwysigrwydd yr hyfforddiant hwn wrth helpu Ymchwilwyr i ddeall eu cyfrifoldebau ac wrth helpu i ymgorffori diwylliant o arfer ymchwil da, mae Ymchwilwyr yn gyfrifol am sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gynnal ymchwil yn eu disgyblaeth benodol. Ni ddylai cwblhau'r hyfforddiant Uniondeb Ymchwil gorfodol gymryd lle hyfforddiant a datblygiad disgyblaeth-benodol.

### 3.3 Gofynion Moesegol

Cyfrifoldeb yr Ymchwilwyr yw gwneud yn siŵr y cynhelir ymchwil un unol â'r safonau moesegol uchaf. Rhaid i ymchwilwyr sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o, ac yn cydymffurfio â, disgwyliadau'r Brifysgol o gynnal ymchwil mewn ffordd foesegol yn ogystal â gofynion moesegol cyllidwyr ymchwil, cyrff proffesiynol, deddfwriaeth benodol a/neu ddisgwyliadau o ran eu disgyblaeth ymchwil.

Rhaid i Ymchwilwyr ystyried holl oblygiadau moesegol eu hymchwil, gan gynnwys yr effaith ar: yr unigolion sy'n gysylltiedig â'r ymchwil neu sydd o bosib wedi'u heffeithio gan yr ymchwil; anifeiliaid; yr amgylchedd; a gwrthrychau diwylliannol. Rhaid i ymchwilwyr sicrhau bod dyluniad eu hymchwil yn ystyried yr holl faterion moesegol perthnasol a bod yr ymchwil yn ceisio sicrhau'r budd mwyaf posib gan leihau'r risg o niwed ar yr un pryd.

Yn ogystal â sicrhau diogelwch a lles cyfranogwyr a gwrthrychau ymchwil, rhaid i Ymchwilwyr ystyried eu diogelwch a'u lles eu hunain a chydymffurfio â holl bolisiau a chanllawiau perthnasol y Brifysgol, gan gynnwys canllaw ar Weithio ar Eich Pen Eich Hun. Mae'r canllawiau hyn ac adnoddau iechyd a diogelwch eraill ar gael ar y fewnwyd (gweler [Atodiad 1](#)).

#### 3.3.1 Ymchwil sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol, Deunydd Dynol (gan gynnwys Meinwe Dynol a Gweddillion Dynol Hynafol) neu Ddata Dynol ('Ymchwil Dynol')

Mewn unrhyw ymchwil sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol, mae diogelwch, hawliau ac urddas cyfranogwyr yn hollbwysig.

Rhaid i ymchwilwyr sy'n cynnal Ymchwil Dynol ymlwynu wrth [Bolisi Ymddygiad Moesegol Ymchwil Dynol y Brifysgol](#). Mae'r Polisi yn cynnwys yr egwyddorion arweiniol sy'n sail i ymddygiad moesegol a chyfrifol Ymchwil Dynol ac mae'n cadarnhau gofynion y Brifysgol ar gyfer adolygiad moesegol o brosiectau Ymchwil Dynol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil (REC), REC Ysgol (SREC) neu bwyllgor moeseg allanol cydnabyddedig fel rheol. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, lle mae angen adolygiad REC, ni ddylai Ymchwilydd ddechrau recriwtio na chasglu data nes ei fod wedi cael barn foesegol ffafriol gan yr REC.

Mae gofynion adolygiad moeseg ym Mhrifysgol Caerdydd wedi eu dylunio i ddangos bod Ymchwilwyr wedi rhoi ystyriaeth briodol i faterion moesegol ynghylch cynllun a chyflwyniad eu hymchwil. Bydd y system hon yn galluogi Ymchwilwyr i wneud cais am gyllid gan y cyrff hynny sydd angen y fath adolygiad a chyhoeddiad mewn cyfnodolion sy'n gofyn am dystiolaeth o adolygiad moesegol. Bydd y Brifysgol yn ymdrechu i gefnogi Ymchwilwyr wrth fyfyrion ar faterion moesegol mewn ymchwil drwy ddarparu cymorth drwy ORIEC, SRECs, Swyddogion Moeseg Ysgolion a thrwy gynnig cyfleoedd hyfforddi.

Yn ogystal â moeseg, mae'n rhaid i Ymchwil Dynol ymlwynu wrth holl ofynion a chanllawiau cyfreithiol a gynhyrchir gan y Brifysgol a chyrrff priodol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i, y Cod Ymarfer hwn, a'r Cod Ymarfer ar gyfer Ymchwil i Feinweoedd Dynol, deddfwriaeth

Diogelu Data, Deddf Meinweoedd Dynol 2004, canllawiau gan gyrff proffesiynol perthnasol neu RECs. Mae'n hollbwysig o safbwynt cyfreithiol a moesegol bod yr holl wybodaeth a geir o waith ymchwil ynglŷn ag unigolion yn cael ei chadw'n hollol gyfrinachol a'i storio'n ddiogel.

Rhaid cymryd gofal arbennig wrth gynnal ymchwil gyda phlant a/neu oedolion sy'n agored i niwed (y cyfeirir atynt weithiau fel 'oedolion bregus') ac ymlynu wrth Bolisi Diogelwch y Brifysgol: Plant ac Oedolion mewn Perygl (gweler [Atodiad 1](#)). Mae'r polisi hwn yn cynnwys canllawiau ar faterion pwysig i'w hystyried wrth weithio gyda grwpiau agored i niwed yn rhan o brosiect ymchwil ac mae'n cynnwys rhwymedigaethau penodol ar gyfer Ymchwilwyr, Ymchwilwyr Arweiniol, Penaethiaid Ysgol a phobl eraill. Lle bo'n berthnasol, efallai y bydd angen i Ymchwilwyr gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn eu galluogi i gynnal eu hymchwil gyda phlant a/neu oedolion sy'n agored i niwed.

Rhaid i Ymchwilwyr gydymffurfio â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ym mhob achos lle na fydd gan y rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil y galluedd i roi caniatâd dilys yn ystod y prosiect, neu lle byddant o bosibl wedi colli'r galluedd hwnnw. Mewn achosion o'r fath, dylai'r protocol ymchwil roi manylion am rôl a chyfrifoldebau unigolion y mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil yn ddibynnol arnynt (e.e. rhieni, gofawyr, 'ceidwaid porth'), a dylai nodi sut mae cydsyniad yn cael ei geisio gan y sawl sy'n cymryd rhan ('cydsyniad go iawn') neu sut mae darpariaethau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cael eu rhoi ar waith. Mae gan ymchwilwyr sy'n bwriadu cynnwys cyfranogwyr nad oes ganddynt o bosib y galluedd (naill ai dros dro neu'n barhaol) ddyletswydd gyfreithiol i gadw at God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol (gweler [Atodiad 1](#)). Rhaid i bob ymchwil sy'n ymwneud ag oedolion heb alluedd gael ei gymeradwyo gan Gorff Priodol. O dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, dim ond Pwyllgorau Moeseg Ymchwil y GIG a Gofal Cymdeithasol sy'n cael eu hystyried yn Gyrff Priodol. Nid yw Pwyllgorau Moeseg y Brifysgol yn cael eu cydnabod fel Cyrff Priodol ac ni ddylid mynd atynt i roi cymeradwyaeth foesegol ar gyfer ymchwil lle gall y Ddeddf Galluedd Meddyliol fod yn berthnasol.

Os bydd Ymchwilwyr o'r farn bod unigolion sy'n cymryd rhan mewn ymchwil dynol yn agored i risg neu niwed afresymol, neu os oes pryderon yn ymwneud â defnyddio neu storio deunydd dynol mewn ffordd amhriodol a/neu heb eu trwyddedu, neu ddefnyddio neu storio data personol yn amhriodol, rhaid iddynt hysbysu eu rheolwr neu unigolyn priodol arall yn y Brifysgol am eu pryderon, yn ogystal â'r awdurdod rheoleiddio priodol lle bo angen.

I gael rhagor o wybodaeth am yr uchod, gofynion y Brifysgol ar gyfer cynnal Ymchwil Ddynol yn foesegol, a thempled y Brifysgol o Daflen Gwybodaeth i Gyfranogwyr a Ffurflen Ganiatâd, cyfeiriwch at [Atodiad 1](#).

### 3.4 Data a Chofnodion Ymchwil

**Nodyn Atgoffa:** Mae'r Cod Ymarfer hwn yn berthnasol i bawb sy'n cynnal neu'n cefnogi ymchwil o dan nawdd y Brifysgol, gan gynnwys pob aelod o staff a myfyrwyr sy'n ymwneud ag ymchwil. Cyfeirir at bob unigolyn o'r fath gyda'i gilydd fel "Ymchwilwyr" trwy gydol y ddogfen hon.

#### 3.4.1 Rheoli Data a Chofnodion Ymchwil

Un o egwyddorion sylfaenol arfer da mewn ymchwil yw rheoli data a chofnodion ymchwil yn effeithiol. Mae'r Brifysgol yn darparu arweiniad, hyfforddiant, cymorth technegol a seilwaith i gynorthwyo Ymchwilwyr gyda hyn. Rhaid i Ymchwilwyr wneud yn siŵr eu bod yn gwbl ymwybodol o unrhyw bolisi gan gyllidwr, deddfwriaeth berthnasol, polisïau a chanllawiau'r Brifysgol ac arfer gorau penodol i ddisgyblaeth yn ymwneud â rheoli data a chofnodion ymchwil, a chydymffurfio â nhw.

Mae Ymchwilwyr yn gyfrifol am gofnodi'n fanwl, sicrhau ansawdd a rheoli eu data ymchwil. Wrth lunio cynnig, rhaid i Ymchwilwyr ystyried sut byddant yn mynd ati i reoli eu data a chofnodion ymchwil ym mha bynnag fformat drwy gydol oes y prosiect, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn parhau'n ddiogel, yn cynnal eu Uniondeb a'u dilysrwydd ac yn parhau i fod ar gael drwy gydol y cyfnod cadw penodedig. Rhaid rhoi sylw dyledus hefyd i ddarparu mynediad at y data ymchwil.

Fel arfer da (ac fel sy'n ofynnol gan lawer o gyllidwyr ymchwil), mae'n rhaid i'r holl brosiectau ymchwil sy'n creu neu'n casglu data gynnwys yr ystyriaethau hyn mewn cynllun rheoli data (DMP) wedi ei ddogfennu'n ffurfiol. Rhaid gweithredu a diweddarw'r DMP pan fo angen drwy gydol oes y prosiect. Fel rhan o'u Cynllun, mae'n rhaid i Ymchwilwyr wneud yn siŵr eu bod wedi asesu'r risgiau sy'n ymwneud â chyfrinachedd, Uniondeb, argaeledd a chydymffurfio o ran eu data ac wedi defnyddio'r rheolaethau diogelwch priodol. Mae adnoddau perthnasol ar gael ar y fewnwyd (gweler [Atodiad 1](#)).

Mae'r Brifysgol yn darparu swm sylweddol o storfa ddigidol ddiogel i gefnogi Ymchwilwyr. Mae pob Ysgol/Sefydliad Ymchwil yn gyfrifol am nodi lle bydd angen storio y tu hwnt i'r swm hwn ac am sicrhau darpariaeth briodol i wneud lle storio digidol a phapur diogel. Rhaid i drefniadau storio o'r fath ymlwyn wrth y Polisi a Gweithdrefnau Dosbarthu a Thrin Gwybodaeth. Dylai Ysgolion a/neu Ymchwilwyr gysylltu â TG y Brifysgol i gael cymorth ar opsiynau priodol lle bo angen. Cyfeiriwch at [Atodiad 1](#) am arweiniad ac adnoddau pellach.

### 3.4.2 Metadata a Dogfennaeth

Rhaid i Ymchwilwyr sicrhau bod data ymchwil a chofnodion yn cael eu creu gyda metadata a dogfennaeth digonol o ansawdd uchel i egluro eu tarddiad, cynnwys a chyd-destun, a lle maent ar gael i'w defnyddio'n allanol, rhaid iddynt fod o fewn cyrraedd hawdd i eraill eu haildefnyddio yn y dyfodol.

Bydd disgwyl i Ymchwilwyr gofrestru manylion eu data ymchwil, a'r darpariaethau ar gyfer cael mynediad ato yn unol â gofynion cyllidwyr ac yn unol ag unrhyw ddull dynodedig gan y Brifysgol. Pan na fydd gan gyllidwyr ofynion yn ymwneud â chofrestru data, anogir Ymchwilwyr o hyd i gofnodi manylion gyda'r Brifysgol.

### 3.4.3 Cadw

Pan gaiff ymchwil ei hariannu, rhaid cadw'r data ymchwil a chofnodion yn unol â'r cyfnod cadw a bennir gan yr ariannwr. Yn absenoldeb unrhyw ofynion cyllidwyr, rhaid cadw data ymchwil a chofnodion yn unol â gofynion cadw'r Brifysgol (fel y nodir yn [rhestr cadw cofnodion y Brifysgol](#)). Os yw'r data ymchwil a'r cofnodion yn destun ffeilio patentau, bydd rhaid i'r data gael ei gadw ar gyfer oes y patent.

Mae'r Brifysgol yn disgwyl y bydd data crai neu gofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth adnabyddadwy (holiaduron gwreiddiol a thapiau sain, er enghraifft) yn cael eu cadw am y cyfnod cadw llawn er mwyn dangos ymddygiad ymchwil da. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i Ymchwilwyr gadw at ofynion Diogelu Data a chyfrinachedd trwy gydol y cyfnod cadw. Fodd bynnag, os gellir cymryd mesurau llym i wirio a sicrhau cywirdeb data neu gofnodion dienw, neu lle nad oes angen gwybodaeth adnabyddadwy i gefnogi'r ymchwil, rhaid i Ymchwilwyr gymryd y camau angenrheidiol i ddileu'r data adnabyddadwy. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, rhaid cadw ffurflenni caniatâd cyfranogwr wedi'u llofnodi am y cyfnod cadw llawn, yn eu ffurf wreiddiol.

Rhaid i ddata ymchwil a chofnodion a gafwyd o Dreialon Clinigol Cynhyrchion Meddyginiaethol Ymchwiliol gael eu rheoli a'u cadw yn unol â Gweithdrefnau Gweithredu Safonau perthnasol.



### 3.4.4 Mynediad at Ddata a Chadw Data

Mae'r Brifysgol yn cefnogi safbwynt Ymchwil ac Arloesedd y DU ar ymchwil agored, gan gynnwys y Concordat ar Ddata Ymchwil Agored (gweler [Atodiad 1](#)).

Ar ddiwedd y prosiect, yn amodol ar unrhyw ystyriaeth gyfreithiol, gytundebol a moesegol, rhaid i ddata fod ar gael yn agored mewn modd amserol a chyfrifol. Mae gan Ymchwilwyr hawl i gyfnod cyfyngedig o fynediad breintiedig i weithio ar eu data, i baratoi cyhoeddiadau ac i gynnal archwiliadau masnachol, ond disgwylir y bydd data ar gael ddim hwyrach na chyhoeddi cynnyrch yr ymchwil. Hyd yn oed os nad oes gofynion gan yr ariannwr, ac fel mater o arfer gorau, dylai Ymchwilwyr geisio sicrhau bod data ar gael ac yn agored lle bynnag y bo'n bosibl.

Bydd data ymchwil sy'n profi canfyddiadau ymchwil neu sy'n debygol o fod o ddiddordeb ar gyfer ymchwil yn y dyfodol yn cael ei adneuo i'w gadw mewn gwasanaeth neu gadwrfa data Prifysgol, cenedlaethol neu ryngwladol, lle mae ystyriaethau cyfreithiol, cytundebol a moesegol yn caniatáu hynny. Rhaid i'r data ymchwil gael ei gadw gyda'r metadata a'r ddogfennaeth briodol a bydd yn ymlynu wrth egwyddorion data FAIR, sy'n nodi y dylaid data fod yn Ganfyddadwy, Hygyrch, Rhyngymarferol ac Ailddefnyddiadwy (gweler [Atodiad 1](#)).

Lle mae data'n cael ei adneuo'n allanol, rhaid bod yn ofalus wrth wneud yn siŵr nad yw hawliau'n cael eu neilltuo heb gadw'r hawl i wneud y data sydd ar gael yn agored i'w ailddefnyddio, oni bai bod hwn yn amod gwreiddiol yn nyfarniad cyllidol y prosiect ymchwil. Lle nad oes modd i ddata fod ar gael yn eang, mae'n rhaid i Ymchwilwyr roi mynediad i drydydd parti dan gytundebau cyfrinachedd priodol y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol i'w galluogi i wirio canlyniadau.

### 3.5 Diogelu Data

Rhaid i Ymchwilwyr gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data pryd bynnag y byddant yn meddu ar wybodaeth a fyddai'n fodd o adnabod unigolyn byw. Gelwir hyn yn '[Data Personol](#)'. Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn nodi'r egwyddorion y mae'n rhaid eu cymhwyso i ddefnyddio, storio a datgelu Data Personol (mae storio data ymchwil wedi'i gynnwys yn [3.4](#)) ynghyd â'r wybodaeth sydd i'w darparu i gyfranogwyr ymchwil. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Ymchwilwyr fod â seiliau cyfreithlon dros ddefnyddio Data Personol at ddibenion ymchwil a sail gyfreithlon bellach i ddefnyddio data 'Categori Arbennig' a Data Personol sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol. Mae data Categori Arbennig yn cynnwys iechyd unigolyn; ei gredoau crefyddol, athronyddol neu wleidyddol; aelodaeth o undeb llafur; ei darddiad hiliol neu ethnig a manylion am ei fywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol.

Ym mhob disgyblaeth ymchwil, mae deddfwriaeth Diogelu Data yn mynnu sail gyfreithlon ar gyfer casglu a defnyddio gwybodaeth am unigolion adnabyddadwy sy'n cymryd rhan mewn ymchwil. Y sail gyfreithlon ar gyfer y rhan fwyaf o ymchwil a wneir gan y Brifysgol fydd bod prosesu data'r cyfranogwyr yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg gyhoeddus a wneir er budd y cyhoedd ac, ar gyfer data Categori Arbennig, bod angen prosesu at ddibenion ymchwil gwyddonol neu hanesyddol.

Er bod egwyddor caniatâd gwybodus yn ddull pwysig o helpu i sicrhau bod ymchwil yn cael ei chynnal yn foesebol mewn llawer o fethodolegau a disgyblaethau, dylid nodi bod y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu Data Personol ar wahân i unrhyw ofynion caniatâd moesegol. Pan fydd ymchwil ar unigolion adnabyddadwy yn cael ei ystyried heb ganiatâd a/neu ymwybyddiaeth y gwrthrychau ymchwil, gellir gofyn am gyngor gan Swyddogion Moeseg Ysgolion a'r Tîm Cydymffurfiaeth a Risg yn Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol cyn adolygiad moeseg ffurfiol.

Er gwaethaf y sensitifeddu a'r cyfyngiadau ynghylch Data Personol, mae'r egwyddor o ddata ymchwil yn gweithredu "mor agored â phosibl, ac ynghau yn ôl yr angen" yn parhau i fod yn

berthnasol yma. Er y gall data 'crai'/heb ei brosesu gynnwys manylion a fyddai, os ydynt ar gael yn rhwydd, yn galluogi nodweddion sensitif i fod ynghlwm ag unigolion penodol, mae posibilrwydd y gallai gwneud data yn ddienw a/neu gyfuno data amddiffyn gwrthrychau dynol yr ymchwil a bodloni'r nod o sicrhau bod data sylfaenol ar gael a/neu darparu data a allai fod o ddefnydd i ymchwil eraill. Rhaid i ymchwilwyr ystyried technegau lleihau data ac anonymeiddio ar ddechrau prosiect a sicrhau bod cyfranogwyr yn cael gwybodaeth glir am sut y bydd eu data'n cael ei ddefnyddio a'i rannu er mwyn sicrhau bod gwneud data'n agored i bawb yn gyfreithlon ac yn foeseogol.

Rhaid i ymchwilwyr hefyd drin a rhannu Data Personol yn unol â dyletswydd cyfrinachedd y gyfraith gyffredin i gyfranogwyr yr ymchwil. Lle bo ymchwilydd yn cael Data Personol gan gyfranogwr a bod disgwyliad o gyfrinachedd, dylid ceisio caniatâd i ddefnyddio'r Data Personol hwn at ddibenion ymchwil. Bydd templed taflen wybodaeth y Brifysgol ar gyfer cyfranogwyr ymchwil yn helpu Ymchwilwyr i gydymffurfio â'r ddwy ddyletswydd hyn.

Mae canllawiau ac adnoddau pellach i Ymchwilwyr ar Ddiogelu Data ar gael (gweler [Atodiad 1](#)).

### 3.6 Cydraddoldeb, Cynhwysiant ac Amrywiaeth ('CCA')

Mae dyletswydd sector cyhoeddus ar Brifysgol Caerdydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da ym mhopeth y mae'n ei wneud, gan gynnwys ymchwil. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb hefyd yn darparu hawliau i unigolion mewn perthynas â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ar sail y '[nodweddion gwarchodedig](#)' dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n rhaid i Ymchwilwyr gydnabod dyletswyddau penodol Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol fel corff cyhoeddus hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac ymdrechu i wneud yn siŵr nad oes neb dan anfantais anghyfreithlon yn sgil y ffordd rydym yn cyflawni ein swyddogaethau. Rhaid i Ymchwilwyr gadw at y Ddeddf Cydraddoldeb a pholisïau a chanllawiau'r Brifysgol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar eu gwaith.

Yn ogystal â'r hyn a nodwyd uchod, mae'r Brifysgol yn mynnu bod y rhai mewn swyddi arwain yn cynnal ymwybyddiaeth drylwyr o ofynion CCA ac yn rhannu'r wybodaeth honno gyda'r rhai dan eu harweiniad. Mae UKRI hefyd yn disgwyl i'r rhai sy'n cael cyllid gan y Cyngor Ymchwil i:

- i. hyrwyddo ac arwain newid diwylliannol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- ii. ymgysylltu â staff ar bob lefel i wella hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- iii. wneud yn siŵr bod pob aelod o'r gweithlu ymchwil yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi i roi sylw i anghymhellion a rhwystrau anuniongyrchol recriwtio, cadw a chynnydd mewn gyrfaedd ymchwil;
- iv. darparu tystiolaeth o ffyrdd y mae materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu rheoli ar lefel sefydliadol ac adrannol.

Mae canllawiau pellach a phenodol ar ystyried materion CCA mewn ymchwil ar gael o'r Hwb CCA (yn Swyddfa'r Is-Ganghellor) ac ar gael ar wefan y Brifysgol (gweler [Atodiad 1](#))

### 3.7 Ymchwil Meinweoedd Dynol a Deddf Meinweoedd Dynol 2004

Mae'r Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 (Deddf HT) yn cynnig fframwaith ar gyfer rheoleiddio symud (lle bo'n briodol), storio a defnyddio meinweoedd dynol at ddibenion Rhestredig penodol, gan gynnwys ymchwil. Mae'r Ddeddf Meinweoedd Dynol yn berthnasol i 'Ddeunydd Perthnasol', a ddiffinnir fel deunydd sy'n dod o'r corff dynol ac sy'n cynnwys celloedd dynol a hylifau'r corff (e.e. poer, gwaed ac wrin) a chynhyrchion gwastraff ychwanegol yn ogystal ag adrannau soled o feinwe. Mae'r Ddeddf HT yn berthnasol i'r holl ddeunydd a gesglir neu a ddefnyddir ar gyfer ymchwil, hyd yn oed os caiff ei ddefnyddio neu ei wneud yn anghellog ar unwaith, neu os caiff ei gasglu gyda sêl



bendith REC y GIG.

Os yw ymchwil yn ymwneud â chasglu neu ddefnyddio Deunydd Perthnasol, rhaid iddo gael ei adolygu yn gyntaf gan Dîm Cydymffurfiaeth y Ddeddf Meinweoedd Dynol cyn ei gyflwyno i REC. Dyma sydd angen ei wneud hefyd os caiff y deunydd ei wneud yn anghellog ar unwaith.

Rhaid i'r holl staff a myfyrwyr sy'n ymwneud â chasglu, storio, defnyddio neu waredu meinwe dynol, a) ddarllen a dilyn Cod Ymarfer Prifysgol Caerdydd ar gyfer Ymchwil Meinweoedd Dynol a Gweithdrefnau Gweithredu Safonol cysylltiedig, b) astudio modiwl hyfforddiant ar-lein Prifysgol Caerdydd am y Ddeddf HT a, c) cofrestru pob prosiect ymchwil neu gasgliadau Meinweoedd Dynol gyda'r Swyddog Meinweoedd Dynol lleol. Cyfrifoldeb pob aelod unigol o staff/myfyrwyr yw gwneud yn siŵr eu bod wedi darllen a dilyn y ddogfennaeth briodol a bod y prosiect/casgliad wedi'i gofrestru.

Mae gwefan Deddf HT y Brifysgol (gweler [Atodiad 1](#)) yn darparu gwybodaeth benodol yn ymwneud â'r safonau disgwylidig ar gyfer casglu, defnyddio, storio a gwaredu meinwe dynol ac yn rhoi mynediad at God Ymarfer Prifysgol Caerdydd ar gyfer Ymchwil Meinweoedd Dynol a Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer Ymchwil Meinweoedd Dynol. Mae modd cael rhagor o wybodaeth gan y Tîm Cydymffurfio â'r Ddeddf Meinweoedd Dynol ([HTA@Caerdydd.ac.uk](mailto:HTA@Caerdydd.ac.uk)).

### 3.8 Ymchwil sy'n Cynnwys Anifeiliaid

Mae ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn deall sut mae systemau yn gweithio o fewn corff byw. Lles yr anifeiliaid sy'n dod gyntaf yn yr holl ymchwil a gynhelir yn y Brifysgol, ac mae gan y Brifysgol nifer o gamau diogelu ar waith. Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i'r camau craffu moesegol manylaf, cydymffurfio cyfreithiol a'r safonau lles uchaf posibl. Mae'r ymchwil a gynhelir ym Mhrifysgol Caerdydd yn targedu clefydau niwro-ddirymiol, canser, asthma, diabetes, glawcoma, parasitiaid, strôc, anhwylderau sy'n effeithio ar gwsg a'r cof, brechlynnau a llawer mwy.

Rhaid ceisio dewisiadau eraill yn lle defnyddio anifeiliaid mewn ymchwil lle bynnag y bo modd, a dylai Ymchwilwyr allu dangos bod yr holl ddewisiadau eraill wedi cael eu hystyried. Os nad oes modd osgoi cynnwys anifeiliaid, rhaid pwyso a mesur pryderon lles anifeiliaid yn erbyn y buddiannau posibl o ran dealltwriaeth a gwybodaeth feddygol a gwyddonol a ddaw yn sgîl yr ymchwil. Yn ogystal, wrth ddylunio'r protocol ymchwil i'w ddilyn, dylid ystyried yn barhaus ffyrdd posibl o gymryd lle, lleihau neu fireinio cyfranogiad anifeiliaid (Egwyddor y 3R). Mae hyn yn golygu:

- i. defnyddio dulliau nad ydynt yn cynnwys anifeiliaid yn lle defnyddio anifeiliaid lle bynnag y bo modd;
- ii. lleihau'r niferoedd angenrheidiol i gael canlyniadau dilys os nad oes modd defnyddio dulliau eraill;
- iii. mireinio'r holl weithdrefnau i leihau niwed ac effeithiau andwyol.

Wrth ystyried y defnydd o anifeiliaid ar gyfer ymchwil, rhaid ymlynu wrth yr holl ofynion cyfreithiol a'r canllawiau a gynhyrchir gan gyrff priodol eraill, yn enwedig rheolaethau'r Swyddfa Gartref drwy'r Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986 (ASPA). Fel rhan o hyn, mae angen i gynigion ymchwil gael eu cymeradwyo ymlaen llaw gan y pwyllgorau moeseg a rheoleiddio perthnasol, a elwir yn Gorff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol (AWERB). Ym Mhrifysgol Caerdydd, cynhelir yr AWERB drwy Bwyllgor Safonau Biolegol y Brifysgol. Gellir dod o hyd i fanylion am reoleiddio defnyddio anifeiliaid mewn gweithdrefnau gwyddonol, a'r ddeddfwriaeth gyfredol, ar wefan y Swyddfa Gartref (gweler [Atodiad 1](#)).

Mae gan y Brifysgol drwydded sefydliad gweithdrefnol (PEL) ar gyfer bridio, cyflenwi ac ymchwil, a oruchwylir gan ddeiliad y Drwydded Sefydliad. Mae'r PEL yn awdurdodi'r lleoliadau lle gellir cynnal ymchwil ac yn awdurdodi 'unigolion penodol a enwir' sydd â chyfrifoldebau cyfreithiol dan y Ddeddf. Er mwyn cynnal ymchwil anifeiliaid dan awdurdod y PEL, mae angen trwyddedau pellach ar gyfer yr ymchwilydd a'r prosiect. Er mwyn gwneud cais am drwydded, rhaid cwblhau ac asesu hyfforddiant achrededig, ac yna gellir gwneud ceisiadau drwy'r system Trwyddedu electronig Gweithdrefnau Gwyddonol Anifeiliaid. Dylid cysylltu â Swyddog Hyfforddiant a Chymhwysedd Enwebedig y Brifysgol am arweiniad.

Mae gan bob Ymchwilydd a staff cymorth ddyletswydd i gynnal safonau gofal uchel ar gyfer yr anifeiliaid sy'n rhan o'r ymchwil, yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cartrefu a Gofalu am Anifeiliaid sy'n cael eu Bridio, eu Cyflenwi neu eu Defnyddio at Ddibenion Gwyddonol. Mae'n ofynnol cadw at lefelau rhagorol o hwsmonaeth a lles anifeiliaid dan oruchwyliaeth filfeddygol. Gellir cael polisi a chanllawiau'r Brifysgol ar ofal a defnydd anifeiliaid mewn ymchwil, gan gynnwys Polisi "Anifeiliaid@Caerdydd" y Brifysgol a chyngor ynghylch Trwyddedau'r Swyddfa Gartref a chymeradwyaethau perthnasol eraill gan y Swyddfa Safonau Biolegol.

Yn ogystal ag ymchwil anifeiliaid sy'n dod o dan adain ASPA, mae'n rhaid i unrhyw Ymchwilydd sy'n cynnal ymchwil yn ymwneud ag anifeiliaid sy'n is na throthwy ASPA neu sydd y tu allan i'w gylch gwaith, megis gweithio y tu allan i'r DU neu gyda rhywogaethau penodol nad ydynt yn cael eu gwarchod, gael yr AWERB i ystyried ei gynnig fel prosiect 'nad yw'n un ASPA'. Dylai unrhyw Ymchwilydd sy'n bwriadu cynnal ymchwil gyda gwrthrychau anifeiliaid a/neu ddeunydd anifeiliaid nad yw'n hysbys i'r Swyddfa Safonau Biolegol eisoes, gysylltu â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau a Safonau Biolegol am gyngor cychwynnol a mynediad at ganllawiau perthnasol.

Rhaid hysbysu unrhyw rai o'r unigolion a enwir yn y lle cyntaf am unrhyw bryderon sy'n ymwneud â phrosiectau ymchwil yn cynnwys anifeiliaid. Gellir mynd â phryderon ymhellach drwy hysbysu Deiliad Trwydded Sefydliad y Brifysgol, lle bo angen. Bydd Deiliad Trwydded y Sefydliad yn rhoi cyngor priodol i sicrhau y bodlonir holl amodau perthnasol y drwydded ac yn paratoi adroddiad ar gyfer yr awdurdod rheoleiddio priodol lle bo angen. Gweler [Atodiad 1](#) am adnoddau pellach sy'n berthnasol i Ymchwil Anifeiliaid.

### 3.9 Ymchwil Clinigol a Threialon Clinigol

#### 3.9.1 Fframwaith Polisi'r DU ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol ('Fframwaith Polisi')

Mae'r [Fframwaith Polisi](#) yn berthnasol i ymchwil a gynhelir gan neu o fewn y GIG a/neu leoliadau gofal cymdeithasol ac sy'n cynnwys adnoddau gofal cymdeithasol a'r GIG. Mae adnoddau gofal cymdeithasol/ y GIG yn golygu cleifion GIG (gan gynnwys y rhai a gafodd eu recriwtio drwy eu cysylltiad â'r GIG e.e. perthnasau a gofalwyr cleifion a'r rhai a gafodd eu recriwtio yn rhinwedd eu statws fel cyn gleifion), y rhai sy'n cyrchu gwasanaethau gofal cymdeithasol penodol, meinweoedd cleifion, data, staff, cyfleusterau neu gymorth.

Mae angen 'Noddwr' llywodraethu ymchwil ar gyfer pob ymchwil sy'n dod o fewn y Fframwaith Polisi a chymeradwyaethau ymchwil perthnasol megis cymeradwyaeth gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil (REC) priodol a'r Awdurdod Ymchwil Iechyd (HRA)/Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW). Cyfrifoldeb yr Ymchwilwyr yw gwneud yn siŵr eu bod wedi cael sêl bendith Noddwr cyn dechrau'r ymchwil. Fel rhan o'r broses Noddi, bydd y Noddwr yn cynghori pa gymeradwyaethau sy'n angenrheidiol ar gyfer y prosiect ymchwil. Bydd hyn yn amrywio o brosiect i brosiect ond gall gynnwys ceisio adolygiad moesegol gan REC Gofal Cymdeithasol neu'r GIG, ceisio caniatâd i gynnal ymchwil o fewn y GIG gan yr HRA/HCRW, a cheisio cymeradwyaeth Galluedd a Gallu lleol y GIG i gynnal yr astudiaeth mewn Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd penodol y GIG. Cyfrifoldeb

yr Ymchwilydd yw ceisio, cael a chynnal y gymeradwyaeth ofynnol ar gyfer ei astudiaeth, gyda chefnogaeth y Noddwr fel sy'n briodol.

Lle mae Ymchwilydd yn disgwyl i Brifysgol Caerdydd weithredu fel Noddwr, rhaid iddynt gysylltu â Swyddfa Ymchwil ar y Cyd Caerdydd (JRO). Am ragor o wybodaeth ynglŷn â threfnu Nawdd, dylai Ymchwilydd gysylltu â'r tîm Uniondeb, Llywodraethu a Moeseg Ymchwil (RIGE) ([resgov@caerdydd.ac.uk](mailto:resgov@caerdydd.ac.uk)). Am ganllawiau ac adnoddau pellach ar gynnal ymchwil sy'n ymwneud â'r GIG, cyfeiriwch at [Atodiad 1](#).

### 3.9.2 Rheoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004 (SI 2004/1031)

Mae Rheoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004 a diwygiadau dilynol yn gosod nifer o gyfrifoldebau cyfreithiol ar Ymchwilydd a sefydliadau ymchwil sy'n ymwneud ag unrhyw ymchwiliad y mae pobl yn cymryd rhan ynddo gyda'r bwriad o:

- i. ddarganfod neu wirio effeithiau clinigol, ffarmacolegol neu ffarmacodeinamig eraill un neu ragor o gynhyrchion meddyginiaethol;
- ii. nodi unrhyw adwaith anffafriol i un neu ragor o gynhyrchion o'r fath, neu;
- iii. astudio amsugno, dosbarthu, metaboledd a/neu ysgarthiad un neu ragor o gynhyrchion o'r fath gyda'r nod o ganfod diogelwch neu effeithlonrwydd y cynhyrchion hynny.

Dan y Rheoliadau, mae'n anghyfreithlon dechrau Treial Clinigol o Gynnyrch Meddyginiaethol Ymchwiliol (CTIMP) yn y Deyrnas Unedig nes:

- i. bydd y treial wedi cael ei awdurdodi gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA); a
- ii. bod pwyllgor moeseg wedi rhoi cymeradwyaeth ffafriol i'r protocol; a
- iii. bod noddwr ar gyfer y treial wedi cael ei gytuno.

Lle mae Ymchwilydd yn disgwyl i Brifysgol Caerdydd weithredu fel Noddwr CTIMP, rhaid iddynt gysylltu â JRO Caerdydd yn ystod y cam gwneud cais am gyllid. Gall y Brifysgol ond ystyried Nawdd CTIMP sy'n cynnwys Uned Treialon Clinigol (CTU) sydd wedi'i chofrestru gan UKCRC. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â threfnu Nawdd y Brifysgol ar gyfer CTIMPs, dylai Ymchwilydd gysylltu â'r JRO drwy [resgov@caerdydd.ac.uk](mailto:resgov@caerdydd.ac.uk). Am ragor o wybodaeth am Dreialon Clinigol, gweler [Atodiad 1](#).

### 3.9.3 Cofrestru Treialon Clinigol ac Ymchwil Glinigol ar Gronfeydd Data sydd ar gael i'r Cyhoedd

Rhaid i'r holl Dreialon Clinigol gael eu cofrestru ar gronfa ddata gyhoeddus briodol. Yn wir, o safbwynt arfer gorau, dylai'r holl brosiectau Ymchwil Clinigol gael eu cofrestru ar gronfa ddata sy'n agored i'r cyhoedd. Mewn rhai achosion, yn enwedig y rhai hynny sy'n ymwneud â Threialon Clinigol, mae cofrestru yn amod o farn moesegol a ffafir.

Mae [Datganiad Helsinki Cymdeithas Feddygol y Byd](#) yn nodi bod "Pob astudiaeth ymchwil sy'n cynnwys bodau dynol yn gorfod cael eu cofrestru mewn cronfa ddata sydd ar gael i'r cyhoedd cyn recriwtio" ac mae Pwyllgor Rhyngwladol Cyfnodolyn y Golygyddion Meddygol (ICMJE) yn ystyried cyhoeddi treialon clinigol os ydynt wedi cofrestru mewn cofrestrfa addas yn unig. Mae deddfau UE yn gofyn i CTIMPs gael eu cyflwyno ar gofrestr gyhoeddus (gydag eithriadau prin ar gyfer astudiaethau gwirfoddol iach).

Diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) o Dreial Clinigol yw: '*... unrhyw astudiaeth ymchwil sy'n neilltuo cyfranogwyr dynol neu grwpiau o bobl i un neu fwy o ymyriadau sy'n ymwneud â iechyd er*

*mwyn gwerthuso'r effeithiau ar ganlyniadau iechyd'. Yn y Deyrnas Unedig, mae hyn y golygu bod cofrestru ar gronfa ddata gyhoeddus yn orfodol ar gyfer yr astudiaethau canlynol:*

- CTIMPs
- Ymchwilio Clinigol neu astudiaeth arall o ddyfais feddygol
- Treialon cyfunedig o Gynnyrch Meddyginiaethol Ymchwiliol a dyfais meddygol ymchwiliol
- Treialon clinigol eraill i astudio ymyriad newydd neu dreial clinigol ar hap i gymharu ymyriadau mewn ymarfer clinigol.

I sicrhau cydymffurfiaeth bydd rhaid arsylwi ar y canlynol:

- **Cofrestru** - Mae'r HRA yn cydnabod unrhyw gofrestr a nodwyd fel [Cofrestr Sylfaenol WHO](#) neu'n [gofrestrfa a gymeradwyr gan ICMJE](#). Rhaid i ymchwiliol yr ystyri ei fod yn Dreial Clinigol gael ei gofrestru cyn ymrestriad y claf cyntaf.
- **Cynnal a Chadw** - Rhaid i ymchwiliolwyr ddiweddar statws y treial yn rheolaidd yn y gofrestrfa a sicrhau bod yr holl addasiadau yn cael eu hadlewyrchu yn y wybodaeth a gedwir yn y gofrestrfa.
- **Cyhoeddi crynodeb o'r canlyniadau** - Rhaid i grynoded o'r canlyniadau gael eu cyhoeddi ar bob cofrestr perthnasol ymhen deuddeg mis ar ôl gorffen y treial (ymhen chwe mis ar gyfer treialon pediatriig) yn y fformat sy'n ofynnol gan y gronfa ddata berthnasol.

### 3.10 Gwrthdaro rhwng Buddiannau

**Nodyn Atgoffa:** Mae'r Cod Ymarfer hwn yn berthnasol i bawb sy'n cynnal neu'n cefnogi ymchwiliol o dan nawdd y Brifysgol, gan gynnwys pob aelod o staff a myfyrwyr sy'n ymwneud ag ymchwiliol. Cyfeirir at bob unigolyn o'r fath gyda'i gilydd fel "Ymchwiliolwyr" trwy gydol y ddogfen hon.

Gall ymchwilydd unigol ymgymryd ag ystod o weithgareddau yn ogystal ag ymchwiliol ac addysgu. Mae'n bosibl bod gan Ymchwiliolwyr gysylltiadau allanol gyda'r sector preifat, y sector cyhoeddus, sefydliadau gwirfoddol a chymunedau lleol, ac maent yn rhoi cyngor arbenigol iddynt. Yn ychwanegol, gall ymchwiliolwyr fod yn adolygwyr cymheiriaid, yn olygyddion cyfnodolyn, yn rhan o gwmnïau deillio, ac o bosibl ynghlwm wrth weithgareddau eraill mewn rôl bersonol sydd heb gysylltiad â'u cytundeb cyflogaeth gyda'r Brifysgol. Mae gweithgareddau o'r fath yn ymestyn gafael a dylanwad y Brifysgol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Rhaid i ymchwiliolwyr ystyried unrhyw wrthdaro gwirioneddol neu bosibl rhwng buddiannau a allai godi o ymgymryd â gweithgareddau o'r fath.

Mae gwrthdaro rhwng buddiannau yn wrthdaro rhwng buddiannau preifat a chyfrifoldebau swyddogol unigolyn mewn swydd o ymddiriedaeth. Mae ymchwiliolwyr 'mewn swydd o ymddiriedaeth' gan eu bod yn atebol i gymdeithas, y Brifysgol, cyrff proffesiynol a chyllidwyr er mwyn sicrhau bod eu hymchwiliol yn cael ei gynnal yn onest ac i'r safonau uchaf. Fel derbynwyr cyllid cyhoeddus a phreifat, rhaid i Ymchwiliolwyr gynnal egwyddorion tryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas â gwrthdaro buddiannau.

Gall gwrthdaro buddiannau fod yn 'wirioneddol' neu'n 'bosibl' h.y., yn cael ei ystyried yn real. Rhaid i ymchwiliolwyr gydnabod bod gwrthdaro rhwng buddiannau, os na chaiff ei reoli'n briodol, yn gallu cael effaith negyddol ar ymchwiliol a gall arwain at golli hyder y cyhoedd mewn gweithgarwch ymchwiliol (yn ogystal ag effeithio ar enw da'r Ymchwiliolwyr, y Brifysgol a thrydydd partion perthnasol (cyllidwyr, cyfnodolion etc).

Yr Ymchwilydd unigol sydd yn bennaf gyfrifol am reoli gwrthdaro rhwng buddiannau, boed hynny'n wrthdaro personol/broffesiynol neu ariannol. Y gofyniad sylfaenol yw bod gwrthdaro rhwng buddiannau, boed yn wirioneddol neu'n bosibl, yn gorfod cael ei nodi, ei ddatgan ac yn cael sylw

cyn gynted ag y daw i'r amlwg. Os yw'r Ymchwilydd yn ansicr p'un a oes gwrthdaro rhwng buddiannau ai peidio, datgelu'r gwrthdaro posibl yw'r arfer gorau.

Gall cael gwrthdaro buddiannau fod yn dderbyniol cyn belled â bod yr Ymchwilydd yn dryloyw ynghylch ei fodolaeth, yn datgan hynny yn ôl yr angen a, lle bo modd, yn cymryd camau i'w reoli er mwyn helpu i sicrhau nad yw'n peryglu uniondeb y prosiect. Mae'n bwysig sicrhau nad yw gwrthdaro buddiannau yn cael dylanwad andwyol ar farn broffesiynol ymchwilydd. Os yw natur a difrifoldeb y gwrthdaro rhwng buddiannau yn achosi risg o gyfaddawdu Uniondeb ymchwil yn ddifrifol, ni ddylai ymchwilydd barhau â'r gwaith ymchwil.

Mae gan y Brifysgol [Bolisi Cydymffurfio â Gofynion Gwrthdaro Buddiannau Allanol](#) sy'n cydnabod bod gan y Brifysgol, fel sefydliad sy'n derbyn arian cyhoeddus arall, ddyletswydd i gyflawni'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol a hwyluso adrodd am wrthdaro buddiannau a'i reoli. Mae'r polisi hwn yn cynnwys rhagor o wybodaeth am ofynion datgan buddiannau penodol. Mae rhagor o wybodaeth am y polisi hwn hefyd yn yr adrannau isod.

### 3.10.1 Categorïau Gwrthdaro

Bydd gwrthdaro rhwng buddiannau yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae gan yr ymchwilydd fuddiannau yn neilliant y prosiect a allai arwain at fantais bersonol (er enghraifft byddai o fantais i'w hunain neu aelod o deulu ac/neu ffrindiau'r ymchwilydd) a allai, felly, beryglu uniondeb y prosiect (neu'n cael ei weld yn cyfaddawdu uniondeb y prosiect). Gallai mantais bersonol fod yn ariannol a/neu yn anariannol (e.e. hyrwyddo credoau personol a/neu ideolegol ymchwilydd).

Mae'r gofyniad i nodi, datgan a rheoli gwrthdaro buddiannau yn ymwneud â'r holl wrthdaro buddiannau gwirioneddol a phosibl, a allai godi mewn sawl sefyllfa gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- i. Cael cyllid gan gwmni: Mae ymchwilydd sy'n derbyn cyllid gan gwmni y mae ganddynt hwy (neu aelod o'r teulu) fudd ariannol sylweddol ynddo yn cyflwyno sefyllfa o wrthdaro posibl, yn enwedig cwmnïau bach a phreifat.
- ii. Masnacheiddio ymchwil: Lle mae'r Brifysgol yn ymwneud â masnacheiddio ymchwil sy'n arwain at fudd ariannol i'r ymchwilydd. Lle mae hyn yn codi, dylai'r prosiect neu weithgarwch sy'n deillio o hyn gynnwys, yn uniongyrchol neu mewn rôl oruchwylio, aelod o staff ar lefel addas nad yw'n gysylltiedig â'r cwmni sy'n darparu cyllid. Yn yr un modd, byddai aelod o staff sy'n cael cymorth ymchwil mewn sefyllfa o wrthdaro pe baent yn gallu cael dylanwad dros benderfyniadau ariannu'r cwmni neu dderbyn telerau'r Brifysgol mewn cytundeb trwydded neu gontractaidd.
- iv. Ymchwil sy'n cynnwys Cyfranogwyr Dynol: mae angen ystyriaeth arbennig o ran unrhyw sefyllfaoedd gwrthdaro posibl gydag ymchwil sy'n cynnwys deunydd neu gyfranogwyr dynol ac felly mae datgan unrhyw fuddiannau perthnasol o bwys arbennig. Gallai hyn cynnwys datgelu buddiannau i gyfranogwyr yr ymchwil, fel modd o ddiogelu Uniondeb unigol a sefydliadol.
- v. Meysydd eraill lle gall wrthdaro godi:
  - lledaenu canfyddiadau ymchwil (e.e. eu hamseru a'u cynnwys);
  - defnydd o adnoddau'r Brifysgol (e.e. defnydd o staff neu adnoddau nad ydych yn cael eu hariannu);
  - cynnal diwylliant academiaidd (e.e. goruchwylio hawliau myfyrwyr);
  - trwyddedu technoleg (e.e. ymyriadau cyfrinachgar neu drafod telerau trwyddedu);
  - priodoldeb yr ymchwil a noddwyd (e.e. natur busnes yr ariannwr, neu sut mae'n gweddu â gweithgareddau eraill y Brifysgol, Coleg neu Ysgol)

- Buddiannau ecwiti – y Brifysgol yn derbyn buddiant ecwiti mewn cwmni. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n bwysig bod y penderfyniadau buddsoddi a wneir am y buddiant ecwiti hwnnw yn cael ei gynnal gan broses sydd ar wahân i'r un sy'n gwneud penderfyniadau'r ymchwil.

Mae [Polisi Cydymffurfiaeth â Gofynion Gwrthdaro Buddiannau Allanol](#) a Hyfforddiant Uniondeb Ymchwil y Brifysgol yn rhoi enghreifftiau pellach o wrthdaro buddiannau ac ystyriaethau penodol.

### 3.10.2 Datganiad a Rheoli

Rhaid datgan gwrthdaro mewn buddiannau cyn gynted ag y maent yn dod i'r amlwg. Yn ogystal ag unrhyw ofynion allanol, fel y rhai a bennir gan gyrff ariannu, rhaid i Ymchwilwyr ddatgan gwrthdaro mewn buddiannau i'r Brifysgol ac unrhyw bwyllgor moeseg ymchwil sy'n adolygu'r ymchwil (yn fewnol neu'n allanol).

Rhaid i'r holl staff sy'n rhan o ymchwil yn y Brifysgol gydymffurfio â gweithdrefn y datganiad yng nghanllawiau'r Brifysgol ynghylch [Datgelu Buddiannau](#). Rhaid i bob myfyriwr sy'n cymryd rhan mewn ymchwil yn y Brifysgol roi gwybod i'w goruchwylwyr/tiworiaid am unrhyw wrthdaro mewn buddiannau fel eu bod yn gallu mynd â'r mater ymhellach gyda Phennaeth yr Ysgol berthnasol.

Pan mae datganiad yn cael ei wneud, rhaid i Ymchwilwyr gydymffurfio â'r cyfarwyddyd a roddir gan y Brifysgol (boed hynny gan REC, Goruchwylwr a/neu Bennaeth yr Ysgol) o ran sut i reoli gwrthdaro mewn buddiannau, a dylid dogfennu hyn.

Yn ogystal â gofynion y Brifysgol, ac fel y cyfeirir ato ar ddechrau'r adran hon, efallai bydd angen rhoi gwybod i rai cyllidwyr yn uniongyrchol am fuddiannau penodol, a/neu gadw'r hawl i adolygu cynllun ar gyfer rheoli achosion o wrthdaro buddiannau, a/neu wahardd deiliaid grant rhag ymgymryd â gweithgareddau penodol. Mae'n bwysig bod Ymchwilwyr yn ymwybodol o ofynion cyllidwyr yn y maes hwn.

Mae [Polisi Cydymffurfiaeth â Gofynion Gwrthdaro Buddiannau Allanol](#) y Brifysgol yn cynnig gwybodaeth bellach am ofynion datgan buddiannau penodol gan gynnwys manylion am ofynion penodol Adran Iechyd a Gwasanaethau Dynol yr UD mewn perthynas ag adrodd am wrthdaro buddiannau ar gyfer ymchwilwyr a ariennir drwy ei Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus (yn cynnwys y Sefydliadau Iechyd Cenedlaethol (NIH)). Manylir ar ofynion penodol yn ymwneud â'r ffrwd ariannu hon yn y polisi hwn. Ceir canllawiau ac adnoddau pellach yn y maes hwn hefyd yn [Atodiad 1](#).

### 3.11 Gwrth-lwgrwobrwyo, Atal Twyll a Gwrth-lygredd

Mae gan y Brifysgol bolisi sy'n gwahardd pob math o ymddygiad y gellir ystyried ei fod gyfystyr â llwgrwobrwyo, llygredd neu dwyll. Mae Prifysgol Caerdydd, yn ogystal â'i staff a'i myfyrwyr, yn ymrwmo i weithredu'n broffesiynol, yn deg ac yn onest, gan wneud yn siŵr bod gwaith ymchwil yn cael ei gynnal mewn ffordd agored, dryloyw a moesegol. Mae disgwyl i Ymchwilwyr gydymffurfio â'r egwyddorion hyn bob amser a rhaid iddynt beidio â chymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd a allai beryglu eu Uniondeb proffesiynol.

Am ragor o wybodaeth, arweiniad a hyfforddiant, cyfeiriwch at Bolisi Atal Llwgrwobrwyo a Pholisi Gwrth-dwyll y Brifysgol (cyfeiriwch at [Atodiad 1](#)) neu cysylltwch â'r tîm Cydymffurfiaeth Ariannol ([financialcompliance@cardiff.ac.uk](mailto:financialcompliance@cardiff.ac.uk)).

### 3.12 cydweithio



Mae Prifysgol Caerdydd yn cefnogi ymchwil gydweithredol yn llawn ac yn cydnabod y manteision a'r cyfleoedd y mae'n ei gynnig i bawb. Mae gan gydweithrediad y potensial i wella ansawdd ac effeithlonrwydd a hybu amrywiaeth, ond gall gynyddu cymhlethdod prosiect a chyflwyno rhai heriau i reoli prosiectau. Dylai ymchwilwyr geisio rhagweld unrhyw faterion a allai godi o ganlyniad i gydweithrediad a chytuno ar y cyd ymlaen llaw sut i fynd i'r afael â hwy, gan gyfleu unrhyw benderfyniadau i bob aelod o'r tîm ymchwil.

Yn benodol, rhaid i Ymchwilwyrfod yn ymwybodol o'r safonau a'r gweithdrefnau a ddilynnir gan unrhyw sefydliad sy'n ymwneud ag ymchwil cydweithredol. Dylid ceisio cytundeb ar rolau penodol yr ymchwilwyr sy'n ymwneud â'r prosiect ac ar faterion megis cymhwysedd gweithdrefnol, fframweithiau moesegol a gofynion adolygu moesegol, deddfwriaeth, cyhoeddi ac awduraeth, arferion data ac eiddo deallusol. Anogir ymchwilwyr sy'n ymwneud â chydweithrediad ymchwil trawsffiniol i adolygu [Datganiad Montreal ar Uniondeb Ymchwil mewn Cydweithrediadau Ymchwil Trawsffiniol](#).

### 3.13 Cynnal Ymchwil Dramor

Wrth gynnal ymchwil dramor mae'n bwysig bod Ymchwilwyr yn ymwybodol o, ac yn cadw at, unrhyw ddisgwyliadau cyfreithiol, moesegol neu ddiwylliannol penodol o fewn y wlad (neu wledydd) lle mae'r ymchwil yn cael ei gynnal. Rhaid i ymchwilwyr hefyd gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a moesegol sy'n bodoli yn y DU a disgwyliadau'r Brifysgol fel y'u cynhwysir yn y Cod Ymarfer hwn, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â moeseg a'r angen am asesiad risg priodol o weithgarwch arfaethedig.

Lle bo modd, dylai Ymchwilwyr geisio cydweithio â sefydliad ymchwil lleol neu arbenigwyr lleol i werthuso eu hunain o unrhyw risgiau penodol a achosir gan yr ymchwil ac i sicrhau bod yr holl ofynion lleol yn cael eu deall a'u dilyn. Mae angen i ymchwilwyr ystyried eu diogelwch personol eu hunain a chymryd camau i liniaru unrhyw risgiau lle bynnag y bo modd. Dylai ymchwilwyr adolygu [Polisi Gwaith Maes y Brifysgol a](#) dogfen arweiniad a chanllawiau ar [weithio dramor](#).

Lle mae'r ymchwil yn cynnwys cyfranogwyr neu bynciau dynol, mae'n hanfodol bod Ymchwilwyr yn myfyrio ar unrhyw faterion moesegol sy'n benodol i brosiect a allai godi oherwydd materion fel gwahanol ddulliau o ymdrin â moeseg, caniatâd neu ddiogelu data, rhwystrau iaith, disgwyliadau gwleidyddol neu ddiwylliannol, gwahaniaethau pŵer a phryderon diogelwch. Anogir ymchwilwyr i adolygu [canllawiau moeseg UKRI ar ymchwil rhyngwladol](#) sy'n cynnwys rhai ystyriaethau moesegol ychwanegol.

### 3.14. Eiddo Deallusol

Mae eiddo deallusol (IP) yn gynnwys meddwl, creadigrwydd ac ymdrech ddeallusol. Yn ystod gwaith ymchwil, ymgynghori ac addysgu, bydd staff academiaidd yn aml yn cynhyrchu eiddo deallusol (e.e. darganfyddiadau a dulliau technegol, lluniau, dyluniadau, canlyniadau arbrofol, darnau o ryddiaith a cherddoriaeth). Mae cyrff cyllido'n disgwyl i brifysgolion fasnacheiddio eiddo deallusol sy'n deillio o waith ymchwil y maent wedi ei gyllido (gweler [Atodiad 1](#)).

Mae'n bwysig bod y Brifysgol yn manteisio'n fasnachol ar yr eiddo deallusol a gynhyrchir ganddi, lle bo hynny'n briodol, er mwyn:

- i. ymledu canfyddiadau ymchwil a helpu i wireddu eu gwerth llawnaf;
- ii. cynorthwyo ffyniant economaidd lleol a chenedlaethol;
- iii. creu incwm ychwanegol i'r Brifysgol a'i staff academiaidd;
- iv. ennill bri i'r Brifysgol.

Er nad oes sicrwydd o enillion ariannol yn sgil masnacheiddio eiddo deallusol, lle mae enillion o'r fath yn cael eu gwireddu gall Ymchwilwyr elwa'n ariannol drwy drefniadau rhannu refeniw'r Brifysgol. Mae'r manteision eraill yn cynnwys:

- i. rhagor o gyfleoedd i ymchwilio ar y cyd;
- ii. statws a chydabyddiaeth entrepreneuriaidd;
- iii. y boddhad o wneud cyfraniad cadarnhaol at y gymdeithas.

Rhaid i ymchwilwyr hysbysu RIS am unrhyw eiddo deallusol a allai fod â gwerth masnachol cyn gynted â phosibl.

### 3.14.1 Perchnogaeth

Y Brifysgol sy'n berchen ar eiddo deallusol a gynhyrchir drwy weithgareddau ymchwil ac addysgu a gynhelir yn rhan o rôl gyflogedig arferol yn y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau a gynhelir y tu allan i'r amgylchedd gwaith arferol, lle cynhelir gweithgareddau o'r fath er mwyn cyflawni dyletswyddau/rôl gyflogedig yr unigolyn o dan sylw. Rhaid i staff roi gwybod i'r Brifysgol am unrhyw ddyfais neu eiddo deallusol a allai fod o werth masnachol.

Ni chaiff myfyrwyr eu cyflogi gan y Brifysgol ac, fel y cyfryw, gallant fod yn berchen ar yr eiddo deallusol maent yn gyfrifol am ei gynhyrchu ar eu pen eu hunain. Serch hynny, mewn rhai amgylchiadau, bydd gofyn i fyfyrwr aseiniio eu budd perchnogaeth mewn eiddo deallusol i'r Brifysgol neu i drydydd parti. Mae hyn yn berthnasol i Ymchwilwyr Ôl-raddedig fel rheol, lle mae telerau eu cyllid yn gofyn am aseiniad o'r fath. Mewn amgylchiadau eraill, bydd Goruchwylir y myfyrwr a/neu aelodau eraill o'r grŵp ymchwil y mae'r myfyrwr yn gweithio gyda nhw yn cyfrannu at y gwaith o greu eiddo deallusol. Er mwyn gwneud y gorau o'r posibilrwydd o fasnacheiddio eiddo deallusol yn llwyddiannus, bydd y myfyrwr yn cael ei annog i neilltuo hawliau perchnogaeth i'r Brifysgol ar yr un sail â staff academiaidd (a fydd yn cynnwys cyfran o unrhyw refeniw a gynhyrchir o fasnacheiddio llwyddiannus).

Fel rheol bydd y Brifysgol yn caniatáu i'r awdur fod yn berchen ar yr hawlfraint ar unrhyw waith a gaiff ei gyhoeddi, ac yn ildio unrhyw hawl a allai fod ganddi ar fuddiannau a ddaw yn sgil y cyhoeddi. Mae rhai eithriadau i hyn:

- i. hawlfraint ar ddeunyddiau cwrs ar gyfer cwrs sy'n cael ei gynnal neu a gaiff ei gynnal gan y Brifysgol;
- ii. hawlfraint ar unrhyw raglen feddalwedd a gynhyrchwyd yn ystod cwrs arferol cyflogaeth;
- iii. hawlfraint ar unrhyw waith a all fod yn angenrheidiol i amddiffyn hawliau eiddo deallusol y gellir ei ecsploetio'n fasnachol;
- iv. hawlfraint ar unrhyw waith a gomisiynwyd gan sefydliad allanol lle mae telerau ac amodau'r comisiwn yn ei gwneud yn ofynnol i drosglwyddo'r hawlfraint i'r sefydliad hwnnw.

Gellir manteisio ar eiddo deallusol neu arbenigedd Prifysgol drwy greu cwmnïau deillio. Mae'r Brifysgol yn annog ac yn cefnogi sefydlu cwmnïau deillio priodol ac mae wedi datblygu nifer o ddulliau cyllido ar gyfer y diben hwn. Bydd RIS yn gweithio gyda staff wrth ddatblygu cynigion busnes a chael y gymeradwyaeth angenrheidiol gan y Brifysgol. Bydd RIS hefyd yn helpu i ganfod ffynonellau cyllid ar gyfer cwmnïau deillio. Am ragor o wybodaeth ynghylch sefydlu cwmnïau deillio a mentrau tebyg, cysylltwch â RIS.

### 3.14.2 Diogelu

Dylai Ymchwilwyr ddiogelu eu buddiannau eu hunain, buddiannau'r Brifysgol a buddiannau unrhyw gyllidwr neu gorff sy'n cydweithio mewn perthynas ag Eiddo Deallusol. Yn y rhan fwyaf o wledydd y byd, bydd datgeliad blaenorol yn annilysu unrhyw gais am batent ac yn niweidio buddion masnachol posibl. Gan hynny, ni chaiff Ymchwilwyr ddatgelu syniad i unrhyw barti nad yw'n

gyflogedig gan y Brifysgol, ar lafar nac yn ysgrifenedig, nes bod camau wedi'u cymryd i ddiogelu'r eiddo deallusol. Ar ôl cael y diogelwch priodol, caiff y syniad neu'r canlyniadau eu cyhoeddi yn y ffordd arferol. Dylid cofio nad yw myfyrwyr Israddedig nac Ymchwil Ôl-raddedig yn cael eu cyflogi gan y Brifysgol.

Pan gredir bod gan ddarn o ymchwil botensial masnachol, gellir cymryd camau ar unwaith i werthuso p'un a gall y syniad gael ei warchod drwy ffeilio cais am patent. Er mwyn cael patent, rhaid i ddyfais fod yn newydd, gynnwys cam dyfeisgar nad yw'n amlwg ar unwaith ac yn gallu cael ei ddefnyddio'n ddiwydiannol. RIS sy'n gyfrifol am reoli cyllideb patent y Brifysgol a bydd yn trafod ac yn cytuno â'r dyfeisiwr/dyfeiswyr y ffyrdd gorau o ddiogelu a manteisio ar yr eiddo deallusol gyda chynghor gan Banel Ymgynghorol Masnach y Brifysgol.

University College Cardiff Consultants Cyf (UC3) yw cwmni dal patentau'r Brifysgol a hwn yw'r cyfrwng ar gyfer ymelwa ar ran y Brifysgol, patentau a Hawliau Eiddo Deallusol eraill. Pan fydd trwyddedu neu gytundeb masnacheiddio tebyg wedi cael ei sicrhau gyda chwmni, bydd RIS yn gwneud yn siŵr y cydymffurfir â'r telerau, yn monitro derbyn breindaliadau i'r Brifysgol ac yn trefnu dosbarthu incwm i ddyfeiswyr, Ysgolion a'r Brifysgol.

### 3.15 'Ymchwil Dibynadwy' a rhyngwladoli

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i greu amgylchedd sy'n galluogi ymchwil rhyngwladol i ffynnu ond mae'n cydnabod natur gymhleth a deinamig rhai risgiau a achosir gan ymchwil o'r fath.

Mae 'Ymchwil Dibynadwy' yn cyfeirio at ymgyrch a fframwaith ledled y DU i godi ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ymchwil rhyngwladol ac er mwyn helpu i hwyluso cynnal ymchwil o'r fath yn gyfrifol drwy sicrhau diwydrwydd dyladwy priodol, llywodraethu, a lliniaru risg lle bynnag y bo modd.

Fel arbenigwyr yn y maes perthnasol, Ymchwilwyr sydd yn y sefyllfa orau i farnu'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â bwrw ymlaen â phrosiect neu bartneriaeth benodol a disgwylir iddynt wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch lle i gynnal ymchwil a phwy i gydweithio â hwy. Anogir ymchwilwyr i adolygu'r [Canllawiau Ymchwil Dibynadwy](#) a ddatblygwyd gan y Ganolfan Diogelu'r Seilwaith Cenedlaethol a'r [Rhestr Wirio Ymchwil Dibynadwy ar gyfer y byd Academaidd](#) wrth ystyried partneriaethau ymchwil rhyngwladol posibl.

Ceir canllawiau pellach ar rai darnau penodol o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i "Ymchwil Dibynadwy" yn [3.15.1](#) a [3.16.1](#), ond dylai Ymchwilwyr sydd angen cymorth a chynghor pellach yn y maes hwn adolygu'r adnoddau sydd wedi'u cynnwys yn [Atodiad 1](#) ac yna cysylltu â'r tîm Uniondeb Ymchwil, Llywodraethu a Moeseg ([resgov@caerdydd.ac.uk](mailto:resgov@caerdydd.ac.uk)).

#### 3.15.1 Rheolyddion Allforio a Sancsiynau

Mae trefn Rheoli Allforio'r DU yn berthnasol i drosglwyddo nwyddau, technoleg, meddalwedd neu wybodaeth strategol benodol i gyrchfan y tu allan i'r DU (ac mewn achosion prin, i drosglwyddiadau o fewn y DU).

Lle mae'r Mesurau Rheoli yn berthnasol, rhaid i Ymchwilwyr gael Trwydded Allforio cyn trosglwyddo unrhyw wybodaeth, technoleg a/neu nwyddau perthnasol. Gall methu â chael Trwydded Allforio, lle bo angen un, fod yn drosedd a gall hyd yn oed arwain at garcharu'r Ymchwilydd, unigolion â chyfrifoldeb penodol am Reolaethau Allforio a/neu Uwch Reolwyr y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol wrthi'n datblygu Polisi Rheolaethau Allforio ac mae ganddi ganllawiau ac adnoddau penodol i Ymchwilwyr ar gael ar dudalen fewnwyd bwrpasol, ond dyma rai pwyntiau allweddol i'w nodi:

- Mae'r Mesurau Rheoli yn fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i ymchwil gwyddonol a thechnegol cydweithredol gyda chymhwysiad gwirioneddol neu bosibl sy'n gysylltiedig â milwriaeth neu arfau.
- Mae'r Mesurau Rheoli yn arbennig o berthnasol yn y disgyblaethau canlynol: peirianeg niwclear; gwyddorau biolegol sy'n cynnwys pathogenau; ymchwil sy'n cynnwys deunydd gwenwynig neu egni uchel/cryfder; electroneg manyleb uchel, cyfrifiaduron, telathrebu a diogelwch gwybodaeth, synwryddion, laserau, opteg a sonar; systemau awtomeiddio a rheoli; deallusrwydd artifisial a roboteq; cryptograffeg; llywio; afioneg; morol a thanddwr; awyrfod, gofod a gyriad.
- Mae 'Allforio' yncynnwys trosglwyddiadcorfforol, yn ogystal â throsglwyddo drwyddulliauelectronig (gan gynnwys e-bost, ffacs, fideo-gynadledda a hyd yn oedsgysiauffôn). Gall cludo gliniadur sy'n cynnwys technoleg/meddalwedd dan reolaeth ar daith dramor hefyd fod yn 'allforio'.
- Yn ogystal â thechnoleg ac eitemau a reolir sy'n cael eu rhestru'n benodol (gweler [Rhestrau Rheoli Allforio Strategol y DU](#)a'r [teclyn Gwirio Nwyddau](#)), mae yna reolyddion dal y cwbl neu 'ddefnydd terfynol' sy'n berthnasol i unrhyw nwyddau neu dechnoleg y gellid eu defnyddio at ddibenion milwrol neu wrth ddatblygu arfau dinistr torfol. Bydd angen awdurdodiad allforio hefyd ar gyfer eitemau strategol a anfonir i gyrchfannau sy'n destun sancsiwn neu embargoau.

Mae angen i ymchwilwyr fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o dderbyn (neu ddefnyddio) eitemau rheoledig o Wlad arall oherwydd gallai hyn olygu bod angen cydymffurfio â deddfwriaeth rheoli allforio'r wlad honno. Yn benodol, mae Rheolaethau Allforio yr UDA yn fwy cyfyngol na'r rhai yn y DU ac Ewrop gan eu bod yn alldiriogaethol eu natur h.y., nid yn unig eu bod yn berthnasol yn ddaearyddol, maent hefyd yn berthnasol i genhedloedd cysylltiedig. Golyga hyn, os gwaherddir eitem o dan gyfreithiau Rheoli Allforio yr Unol Daleithiau rhag cael ei allforio i wlad, gall hefyd gael ei wahardd rhag cael ei allforio i unigolyn sy'n wladolyn (neu'n wladolyn deuol) o'r wlad honno, waeth lle mae'n byw/wedi'i leoli ar adeg yr allforio. Rhaid i ymchwilwyr sicrhau eu bod yn cael cyngor gan y cydweithiwr/cyswllt yn y wlad berthnasol lle mae hyn yn berthnasol.

Am ragor o wybodaeth ac adnoddau gweler [Atodiad 1](#).

### 3.15.2 Deddf Diogelwch a Buddsoddiadau Cenedlaethol 2021 ('NSI')

Mae'r NSI yn rhoi pwerau i'r Llywodraeth graffu ac ymyrryd mewn trafodion penodol lle mae'n amheuaeth resymol bod y trafodiad yn peri risg i ddiogelwch cenedlaethol. Dan yr NSI, gall y Llywodraeth "alw i mewn" am gaffaeliadau adolygiad o "endidau cymwys" neu roi hawliau i "asedau cymwys" mewn 17 sector sydd wedi'u diffinio'n rhai technoleg sensitif. Mae'r sectorau hyn yn fras fel a ganlyn, er eu bod yn amodol ar ddiffiniadau penodol a geir [yma](#):

| Deunyddiau Uwch         | Cyflenwyr Hanfodol i'r Llywodraeth | Technolegau Cwantwm                                            |
|-------------------------|------------------------------------|----------------------------------------------------------------|
| Uwch-roboteq            | Dilysu Cryptograffig               | Technolegau Lloeren a Gofod<br>Cyflenwyr i'r Gwasanaethau Brys |
| Deallusrwydd Artifisial | Isadeiledd Data                    |                                                                |
| Niwclear Sifil          | Amddiffyniad                       |                                                                |
| Cyfathrebu              | Ynni                               | Bioleg Synthetig                                               |
| Caledwedd Cyfrifiadura  | Milwrol a Defnydd Deuol            | Trafnidiaeth                                                   |

Yng nghyd-destun gweithgarwch ymchwil, gallai “endid cymwys” gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) brifysgol neu is-gwmni arall, cwmni sy'n deillio brifysgol, sefydliad ymchwil, a chwmni preifat. Gallai “ased cymwys” gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) ddyluniadau, cynlluniau, manylebau, meddalwedd, cronfeydd data, cod ffynhonnell, algorithmau, fformiwlâu a chyfarpar.

Dylai unrhyw Ymchwilydd sy'n ymwneud â gweithgarwch neu brosiect yn un o'r 17 sector sydd wedi'u diffinio'n rhai technoleg sensitif ac sy'n cynnwys caffael endid neu roi hawliau eiddo deallusol/trwydded i sefydliad arall ymgynghori yn gyntaf â [chanllawiau NSI y Llywodraeth ar gyfer y sectorau addysg uwch a dwys o ran ymchwil](#) a chysylltu â'r tîm Uniondeb Ymchwil, Llywodraethu a Moeseg ([resgov@cardiff.ac.uk](mailto:resgov@cardiff.ac.uk)) am gymorth pellach.

### 3.16 Ymchwil sy'n Sensitif o ran Diogelwch ('SSR')

O dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, mae gan y Brifysgol ddyletswydd gyfreithiol i roi 'sylw dyledus' i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth (a adwaenir fel y 'Ddyletswydd Atal'). Mae'r Brifysgol wedi rhoi camau cymesur ar waith i fodloni'r Ddyletswydd Atal mewn cyd-destun ymchwil, tra'n parchu rhyddid academiaidd Ymchwilwyr i gynnal ymchwil dilys i feysydd fel terfysgaeth, eithafiaeth a radicaleiddio.

Mae Polisi SSR y Brifysgol (gweler [Atodiad 1](#)) yn darparu fframwaith ar gyfer cofrestru a rheoli ymchwil a all sbarduno'r Ddyletswydd Atal. Nod y Polisi SSR yw sicrhau bod y fath ymchwil yn cael ei gynnal yn briodol ac yn gyfrifol, a bod camau priodol yn cael eu cymryd i ddiogelu Ymchwilwyr rhag y perygl o radicaleiddio a/neu'r risg y gallai eu gweithgarwch ymchwil arwain at gamddechongli o frriad gan awdurdodau allanol.

Yn y pen draw, mae Ymchwilwyr yn gyfrifol am nodi p'un a ellid ystyried yr ymchwil y maent yn ei gynnal yn Sensitif o ran Diogelwch ac, os felly, rhaid iddynt gydymffurfio â holl ofynion Polisi SSR, ochr yn ochr ag unrhyw ofynion ariannwr a/neu gyfnodolyn.

### 3.17 Cyhoeddiadau ac Awduriaeth

**Nodyn Atgoffa:** Mae'r Cod Ymarfer hwn yn berthnasol i bawb sy'n cynnal neu'n cefnogi ymchwil o dan nawdd y Brifysgol, gan gynnwys pob aelod o staff a myfyrwyr sy'n ymwneud ag ymchwil. Cyfeirir at bob unigolyn o'r fath gyda'i gilydd fel "Ymchwilwyr" trwy gydol y ddogfen hon.

#### 3.17.1 Egwyddorion Cyhoeddi

Mae gan Ymchwilwyr gyfrifoldeb i gyhoeddi a rhannu ymchwil mewn modd sy'n adrodd yr ymchwil yn gywir, a heb ddewis a dethol mewn ffordd a allai fod yn gamarweiniol. Mae hyn yn ymestyn i adrodd canfyddiadau/canlyniadau negyddol neu “nwl”.

Dylid cyhoeddi ymchwil lle bo hynny'n bosibl<sup>2</sup>, gan ystyried unrhyw amodau a bennir gan y cyllidwr ymchwil (lle bo'n berthnasol), unrhyw bryderon diogelwch a/neu ddiogelu unrhyw eiddo deallusol neu wybodaeth gyfrinachol (cyfeiriwch at [3.14](#)). Un eithriad i'r rheol safonol o gyhoeddi'n gyntaf drwy sianel gydnabyddedig fyddai pan fyddai materion iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch difrifol dan sylw. Byddai diogelwch y cyhoedd yn cael blaenoriaeth yn yr achosion hyn. Yn sgil hynny, rhaid i ganfyddiadau ymchwil gofal iechyd yn enwedig gael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl.

<sup>2</sup> Cydnabyddir na chaiff pob prosiect myfyriwr ei gyhoeddi. Yng nghyd-destun prosiectau myfyrwyr, rhaid i holl fyfyrwyr ymchwil sicrhau eu bod yn gyfarwydd â disgwyliadau eu Grŵp/Ysgol/Sefydliad ymchwil mewn perthynas â storio a rhannu allbwn eu hymchwil. Rhaid i fyfyrwyr ymchwil ymgysylltu â'u Goruchwyliwr a'u Grŵp Ymchwil/Ysgol Ymchwil/Sefydliad Ymchwil i hwyluso lledaenu allbwn eu hymchwil lle bo'n briodol. Am gyngor pellach, cysylltwch â Gwasanaethau Llyfrgell y Brifysgol neu'r tîm Uniondeb, Llywodraethu a Moeseg Ymchwil.

Dylai'r holl ymchwil a gyhoeddir gan Ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd, gynnwys 'Prifysgol Caerdydd' ym maes cyfeiriad yr awdur bob amser (i ddynodi cysylltiad). Yn y mwyafrif o achosion, ac yn unol â disgwyliadau 'Data Agored', dylid darparu data ategol a dylai ymchwil a gyhoeddwyd gynnwys datganiad byr yn amlinellu sut, ac ar ba delerau, y gellid cael gafael ar y data.

Ni ddylai awduron gyflwyno adroddiadau ymchwil i fwy nag un cyhoeddwr posibl ar unrhyw adeg benodol (h.y., cyflwyniad dyblyg) ac ni ddylent gyhoeddi mwy nag un papur yn seiliedig ar yr un set o ddata, ac eithrio pan fydd cyfeiriadau a chydabyddiaeth lawn a thrylwyr yn cael eu gwneud i'r papur(au) cynharach. Rhaid i gyhoeddiad gynnwys cyfeirnodau priodol a chydabod yr holl ffynonellau a ddefnyddiwyd. Dylai awduron ofyn am ganiatâd gan awduron eraill os yw swm sylweddol o'u gwaith wedi'i ddefnyddio mewn cyhoeddiad. Mae'n rhaid i unrhyw awdur sy'n cyflwyno gwaith tebyg i fwy nag un cyhoeddwr wneud yn siŵr bod pob cyhoeddwr yn ymwybodol o hyn pan gyflwynir y gwaith.

Dylid lledaenu canlyniadau'r ymchwil yn eang ac ar ffurf briodol, a thrwy hynny ganiatáu i'r gymuned yn gyffredinol weld, herio a datblygu canlyniadau ymchwil. Dylai'r holl gyhoeddiadau gynnwys digon o wybodaeth i alluogi Ymchwilwyr eraill i ailadrodd yn fanwl gywir y gweithdrefnau a ddefnyddiwyd yn wreiddiol, a thrwy hynny wella atgynhyrchedd. Fel y nodir yn [2.2](#), mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gefnogi arferion Ymchwil Agored ac yn disgwyl i'w Hymchwilwyr werthfawrogi pwysigrwydd Ymchwil Agored ac Atgynhyrchu. Ceir canllawiau ac adnoddau pellach yn y maes hwn yn [Atodiad 1](#).

Disgwylir i ymchwilwyr weithredu'n ddiwyd wrth ddewis cyhoeddwr/cyfnodolyn/fforwm ar gyfer cyhoeddi eu hymchwil. Mae'n bwysig bod Ymchwilwyr yn ymwybodol o'r dirwedd gyhoeddi ar gyfer eu disgyblaeth a bod y fforwm cyhoeddi a ddewisir yn gyfreithlon, yn ddibynadwy ac yn briodol ar gyfer y maes ymchwil. Rhaid i ymchwilwyr fod yn wyliadwus rhag arferion cyhoeddi ysglyfaethus posibl, yn enwedig yng ngoleuni'r nifer cynyddol o gyfnodolion 'rheibus' neu 'ffug'. Yr ymgyrch “[Pwyllo. Gwirio. Cyflwyno](#)” yn helpu Ymchwilwyr i ddeall eu hopsiynau ac i wneud penderfyniad gwybodus a diwyd wrth ddewis fforwm cyhoeddi. Mae rhagor o wybodaeth am gyfnodolion rheibus ac osgoi cyhoeddwr rheibus ar gael yn [Atodiad 1](#).

Mae'n bwysig bod awduron yn datgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol mewn perthynas â'u hymchwil o fewn cyhoeddiadau a bod yr allbwn ymchwil yn cael ei adolygu gan gymheiriaid drwy sianeli gwyddonol a phroffesiynol derbynol lle bynnag y bo modd. Sylwch fod y Brifysgol wedi datblygu arweiniad i Ysgolion ar y [lleiafswm disgwyliadau ar gyfer adolygiad mewnol gan gymheiriaid o geisiadau grant](#) y bwriedir iddynt gefnogi Ymchwilwyr i gyflwyno cynigion grant cystadleuol a thrylwyr.

Rhaid i awduron wneud yn siŵr eu bod nhw'n bodloni gofynion Mynediad Agored arianwyr. Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil ('REF'), rhaid i awduron gyflwyno testun llawn o'r llawysgrif dderbyniedig derfynol ('ôl-argraffu') o'u herthyglau mewn cyfnodolion a'u trafodion cynadleddau cyhoeddedig, ynghyd â metadata, mewn ystorfa sefydliadol briodol o fewn 3 mis o ddyddiad derbyn. Lle mae caniatâd hawlfraint cyhoeddwr yn caniatáu ac nad oes unrhyw gyfyngiad o ran cyfrinachedd neu fasnach, bydd y fersiynau hyn yn rhai Mynediad Agored. Ni fydd allbynnau sy'n destun embargo yn cael eu rhyddhau i'r cyhoedd nes bod y cyfnod embargo wedi dod i ben.

P'un a yw'r REF yn berthnasol ai peidio, disgwylir i Ymchwilwyr gydymffurfio â [Pholisi Cyhoeddiadau Mynediad Agored](#) y Brifysgol sy'n cynnwys disgwyliadau penodol ynghylch cofrestru a chyhoeddi allbwn ymchwil i ystorfa sefydliadol Prifysgol Caerdydd (ORCA). Wrth gyhoeddi allbynnau ymchwil, a lle bo'n berthnasol, dylid dyfynnu Dynodwyr Gwrthrych Digidol



(DOIs) i gynyddu effaith a gwelededd. Anogir yn fawr i ddefnyddio dynodydd safonol ar gyfer awduron fel ORCID er mwyn gwneud yn siŵr bod allbynnau'n cael eu priodoli'n gywir.

Ceir canllawiau ac adnoddau pellach sy'n berthnasol i arferion cyhoeddi yn [Atodiad 1](#).

### 3.17.2 Penderfynu ar Awduraeth

Awduraeth yw'r dull mwyaf blaenllaw o ddyrannu credyd a chyfrifoldeb am waith deallusol neu greadigol. Nid oes unrhyw safonau cydnabyddedig ar gyfer penderfynu ar awduraeth, ac mae'r rheolau a chonfensiynau yn amrywio ar draws disgyblaethau ymchwil a sefydliadau. Mae'r cyfrifoldeb dros benderfynu ar awduraeth gyda'r rheini sy'n gysylltiedig â chreu cyhoeddiadau. Felly, mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod pawb sy'n gysylltiedig â chreu cyhoeddiad yn ymwybodol o, ac yn cydymffurfio gyda, unrhyw ofynion a bennir gan yr arianwyr, cyfnodolion neu gyrff proffesiynol.

Er mwyn helpu i atal arfer awduraeth anfoesegol ac osgoi anghydfodau, dylid trafod meini prawf awduraeth a chytuno arno â phawb sy'n ymwneud a phrosiect ymchwil yn y cyfnod cynnar, a'i adolygu'n rheolaidd. Dylid cofnodi'r trafodaethau hyn, ac unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch awduraeth.

Lle nad oes unrhyw ofynion disgyblaeth-benodol, cyllidwr neu gyfnodolyn, y rheol gyffredinol yw y dylid ond rhestru unigolion fel awduron os ydynt wedi gwneud cyfraniad deallusol sylweddol at y cyhoeddiad **ac** yn cytuno i fod yn atebol amdano. Mae'r Brifysgol yn disgwyl i unrhyw un sy'n bodloni'r meini prawf isod gael eu rhestru fel awdur:

- i. Rhywun sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i gysyniad neu ddyluniad y prosiect ymchwil **a/neu** ddadansoddi a dehongli data ymchwil; **AC**
- ii. Drafftio'r cyhoeddiad a/neu ddiwygio'r cyhoeddiad ar gyfer cynnwys deallusol pwysig; **A**
- iii. Cymeradwyo'r fersiwn terfynol o'r cyhoeddiad.

**Ni** fwriedir i'r meini prawf uchod gael ei ddefnyddio i wrthod awduraeth y rhai sy'n haeddu clod, a dylid rhoi'r cyfle i'r holl unigolion sy'n bodloni'r maen prawf cyntaf i gymryd rhan yn y gwaith o ddrafftio/diwygio'r cyhoeddiad, ac i gymeradwyo'r fersiwn terfynol.

Nid yw helpu i gaffael arian neu ddata yn ddigonol i ennill teitl awdur; nac ychwaith goruchwyliaeth gyffredinol o dîm ymchwil. Dylid cydnabod cyfraniadau o'r math hwn yn y testun, ond nid fel awduron. Nid yw'r arfer o 'awduraeth er anrhydedd (neu rodd)' h.y. caniatáu awduraeth i'r rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf perthnasol yn dderbyniol, ac mae hynny'n wir am yr arfer o 'rith-awduraeth' hefyd h.y. methu â rhestru rhywun fel awdur sy'n bodloni'r meini prawf awduraeth perthnasol.

Rhaid i awdur allu nodi ei gyfraniad penodol at y cyhoeddiad a bod yn gyfrifol am sicrhau ei gywirdeb cyn ei gyhoeddi. Ar ôl cyhoeddi, tybir bod yr awduron yn cymeradwyo'r cyhoeddiad ac yn cefnogi canfyddiadau'r ymchwil ar y cyd. Gweler [Atodiad 1](#) am adnoddau pellach sy'n berthnasol i arfer awduraeth.

### 3.17.3 Cydnabod y Cyfranwyr

Rhaid i ymchwilwyr gydnabod gwaith yr holl gyfranwyr (gan gynnwys cydweithwyr) nad ydynt yn bodloni'r meini prawf traddodiadol ar gyfer awduraeth. Gallai [Tacsonomeg Rolau Cyfranwyr](#) sydd wedi'i mabwysiadu gan sawl cyfnodolyn academiaidd, fod yn ddefnyddiol wrth egluro gwahanol rolau a chyfraniadau ymchwilwyr. Rhaid i ymchwilwyr gydnabod ffynhonnell unrhyw gyllid sy'n gysylltiedig â'r ymchwil a dylent gydnabod unrhyw noddwyr ymchwil. Mae hyn yn berthnasol wrth

gyhoeddi canfyddiadau ymchwil, a phryd bynnag caiff datganiadau eu gwneud ynglŷn â'r ymchwil. Rhaid cydnabod ffynhonnell y data neu samplau pan ddefnyddir data neu samplau gan drydydd parti.

### 3.17.4 Adolygu gan Gymheiriaid

Mae adolygwyr cymheiriaid yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau uniondeb y cofnod ysgolheigaidd. Rhaid i staff neu fyfyrwyr sy'n cynnal adolygiad cymheiriaid wneud hynny i'r safonau uchaf o ran trylwyrdd a gwrthrychedd. Rhaid i adolygwyr cymheiriaid weithredu â gonestrwydd ac uniondeb, parchu cyfrinachedd a sicrhau bod asesiadau'n cael eu gwneud ar gynnwys gwyddonol yn hytrach na metrigau cyhoeddi. Rhaid i adolygwyr cymheiriaid sicrhau bod ganddynt y wybodaeth/arbenigedd angenrheidiol i gynnal adolygiad cymheiriaid a'r gallu i gynnal yr adolygiad o fewn yr amserlen ofynnol gan ddatgan unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau.

Wrth gynnal adolygiad gan gymheiriaid, efallai bydd adolygydd yn dod ar draws achos o gamymddwyn posibl neu efallai bydd ganddo bryderon moesegol neu bryderon eraill ynglŷn â'r ymchwil. Mewn achosion o'r fath, disgwylir i'r adolygydd adrodd ar hyn, yn gyfrinachol, i'r sefydliad a ofynnodd am yr adolygiad. Mae'n bosibl y bydd gan gyllidwyr a chyhoeddwyrs broses ar gyfer adrodd ar faterion o'r fath a/neu bolisiau cyffredinol eraill sy'n llywodraethu'r modd y cynhelir adolygiad gan gymheiriaid a datrys anghydfodau neu bryderon. Disgwylir i adolygwyr cymheiriaid ymlynu wrth bolisiau o'r fath.

Disgwylir i staff neu fyfyrwyr sy'n gweithredu fel adolygwyr cymheiriaid ymlynu wrth yr ymddygiadau a'r gwerthoedd craidd a nodir yn y Cod Ymarfer hwn ac fe'u hanogir i adolygu'r [Canllawiau Moesegol ar gyfer Adolygu gan Gymheiriaid](#) a gynhyrchwyd gan y Pwyllgor Moeseg Cyhoeddiadau (COPE). Mae gan COPE lu o adnoddau defnyddiol eraill sy'n ymwneud ag adolygiadau gan gymheiriaid a moeseg cyhoeddi yn ehangach (gweler [Atodiad 1](#)).

### 3.17.5 Swyddogaethau Golygyddol

Mae gan olygyddion rôl hanfodol wrth gynnal uniondeb y cofnod ysgolheigaidd. Disgwylir i olygyddion annog arfer cyfrifol a moesegol ac ymdrin yn briodol ag anghydfodau neu honiadau o gamymddwyn sy'n ymwneud â'r cofnod ysgolheigaidd.

Dylai golygyddion ymdrechu i sicrhau bod unrhyw ymchwil a gyhoeddir ganddynt yn cael ei wneud yn unol â chanllawiau perthnasol a dylent fod yn barod i holi awduron am agweddau moesegol eu hymchwil a cheisio sicrwydd bod egwyddorion moesegol yn cael eu dilyn. Rhaid i olygyddion ymlynu wrth holl bolisiau a gweithdrefnau'r cyfnodolyn/cyhoeddiad perthnasol.

Disgwylir i staff neu fyfyrwyr sy'n gweithredu fel golygyddion ymlynu wrth yr ymddygiadau a'r gwerthoedd craidd a nodir yn y Cod Ymarfer hwn ac fe'u hanogir i adolygu'r [Cod Ymddygiad ar gyfer Golygyddion Cyfnodolyn](#) a gynhyrchwyd gan COPE, ochr yn ochr â'r [pecyn cymorth Moeseg ar gyfer swyddfa olygyddol lwyddiannus](#). Anogir golygyddion newydd hefyd i adolygu'r [canllaw byr i olygu moesegol ar gyfer golygyddion newydd](#).

## 3.18 Codi pryder ynghylch Uniondeb Ymchwil

**Nodyn Atgoffa:** Mae'r Cod Ymarfer hwn yn berthnasol i bawb sy'n cynnal neu'n cefnogi ymchwil o dan nawdd y Brifysgol, gan gynnwys pob aelod o staff a myfyrwyr sy'n ymwneud ag ymchwil. Cyfeirir at bob unigolyn o'r fath gyda'i gilydd fel "Ymchwilwyr" trwy gydol y ddogfen hon.

Rhaid i ymchwilwyr gydnabod bod arfer da mewn ymchwil yn cynnwys adrodd am bryderon ynghylch y ffordd y cynhelir yr ymchwil, cydweithredu ag unrhyw ymchwiliad i'r pryderon hynny, ac adrodd am unrhyw weithgarwch arall sy'n peryglu uniondeb ymchwil Prifysgol Caerdydd.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd ymchwil sy'n galluogi'r holl staff a myfyrwyr, yn ogystal â'r rhai y tu allan i'r Brifysgol, i godi pryderon ynghylch Uniondeb Ymchwil a/neu y ffordd y cynhelir yr ymchwil. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gefnogi pawb sy'n mynegi pryder dilys yn ddidwyll. Er mwyn hwyluso hyn, mae gan y Brifysgol bwyntiau cyswllt a enwir i dderbyn pryderon Uniondeb Ymchwil, honiadau o Gamymddwyn Ymchwil Academaidd a chwythu'r chwiban, ac mae pob un ohonynt ar gael [yma](#). Mae gan y Brifysgol hefyd rwydwaith o Arweinwyr Uniondeb Ymchwil lleol a Swyddogion Moeseg Ysgol sydd hefyd o bosib yn gallu cynnig cefnogaeth, yn dibynnu ar natur y pryder. Cyfeiriwch at [Atodiad 1](#) i gael rhagor o wybodaeth am bwyntiau cyswllt lleol.

Er bod Ymchwilwyr yn cael eu hannog i gysylltu'n uniongyrchol ag un o'r pwyntiau cyswllt a enwir gan y Brifysgol, a fydd yn trin pob pryder o ddifrif ac mor sensitif â phosibl, gall Ymchwilwyr hefyd geisio cyngor cyfrinachol ac annibynnol gan [wasanaeth cynghori](#) UKRIO.

Er bod mwyafrif yr Ymchwilwyr a'r rhai sy'n cefnogi ymchwil yn ymdrechu i gyrraedd y safonau uchaf, Mae'n bwysig cydnabod bod camgymeriadau a gwallau mewn ymchwil yn digwydd ac yn rhan naturiol o weithgarwch dynol. Yn y mwyafrif o achosion, bydd y rhain yn gamgymeriadau gonest y gellir eu cywiro trwy gefnogaeth a hyfforddiant priodol. Serch hynny, mewn rhai achosion, gall camgymeriadau fod o ganlyniad i arferion ymchwil amheus neu gamymddygiad ymchwil sy'n gofyn am ymchwiliad mwy manwl. Lle mae camgymeriad wedi digwydd mewn ymchwil sydd eisoes wedi'i gyhoeddi, bydd angen cymryd camau priodol hefyd i gywiro'r cofnod ymchwil.

### 3.18.1 Camymddygiad Ymchwil

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'r holl Ymchwilwyr arsylwi'r safonau uchaf o ymddygiad proffesiynol a Uniondeb trwy gydol eu prosiect ymchwil, gan gynnwys ysgrifennu a chyflwyno'r papurau/traethodau ymchwil. Os oes gan unrhyw Ymchwilydd reswm i amau camymddwyn mewn ymchwil, dylid adrodd am hyn. Rhaid i ymchwilwyr beidio ag ymgymryd â chamymddwyn na'i guddio.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i drin pob honiad o gamymddygiad ymchwil o ddifrif, ac mae gweithdrefnau ar waith sy'n nodi'r sail y gellir gwneud honiadau, a'r broses a ddilynir i ymchwilio a mynd i'r afael â honiadau o'r fath. Disgwylir i ymchwilwyr sydd wedi codi honiad o gamymddwyn ymchwil, neu sy'n destun honiad, ymgysylltu â'r broses hon. Disgwylir i ymchwilwyr hefyd weithio gyda'r Brifysgol i gefnogi'r rhai sy'n codi pryderon neu honiadau yn ddidwyll a'r rhai sydd wedi'u rhyddhau o fai am gamymddwyn a ddrwgdybiwyd.

Mae [Gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer ymdrin â honiadau o Gamymddwyn mewn Ymchwil Academaidd](#) ('ARM Procedure') yn amlinellu'r camau i'w cymryd pan mae honiad o "Gamymddygiad Ymchwil Academaidd" yn erbyn unrhyw aelod presennol neu flaenorol o staff, yn cynnwys academyddion gwadd, o ran ymchwil a gynhelir pan fyddant yn cael eu cyflogi gan neu yn y Brifysgol. Pan fo honiad yn ymwneud ag arferion ymchwil amheus neu ymddygiad arall nad yw'n cyrraedd y safonau disgwyledig ond nad yw'n gyfystyr â "Chamymddygiad Ymchwil Academaidd", dylid cyfeirio'r mater at Bennaeth yr Ysgol a gellir ei drin fel mater disgyblu. Ceir rhagor o wybodaeth am arferion ymchwil amheus yn y Weithdrefn ARM, Hyfforddiant Uniondeb Ymchwil y Brifysgol ac o fewn yr adnoddau y cyfeirir atynt yn [Atodiad 1](#).

Mewn perthynas â honiad o gamymddwyn yn erbyn myfyriwr o Brifysgol Caerdydd, bydd Rheoliadau Ymddygiad Myfyrwyr y Brifysgol yn berthnasol. Mae'r Rheoliadau'n cyfeirio at amrediad o bolisïau a gweithdrefnau ymchwilio sy'n berthnasol i fyfyrwyr, yn fwyaf nodedig, yn y cyd-destun hwn, y Polisi Uniondeb Academaidd (sy'n cynnwys diffiniad o "Camymddwyn Academaidd mewn Ymchwil") a'r Gweithdrefnau Camymddwyn Academaidd (un ar gyfer

Myfyrwyr Ymchwil ac un ar gyfer Myfyrwyr a Addysgir). Rheolir honiadau o Gamymddwyn Academaidd mewn Ymchwil yn unol â'r Weithdrefn Camymddwyn Academaidd berthnasol. Mae holl reoliadau, polisiau a gweithdrefnau myfyrwyr wedi'u cynnwys yn [Rheoliadau Academaidd](#) y Brifysgol ac mae rhagor o wybodaeth am “Gamymddygiad Academaidd” ar gael ar y fewnwyd (gweler [Atodiad 1](#)).

Am ganllawiau ac adnoddau pellach yn ymwneud â chamymddwyn ymchwil, gan gynnwys canllaw byr UKRIO i gamymddygiad ymchwil a chanllawiau'r Brifysgol ar Uniondeb Delwedd mewn Ymchwil, gweler [Atodiad 1](#).

### 3.19 Gadael y Brifysgol

#### 3.19.1 Staff

Lle bo'n berthnasol, rhaid i staff sy'n gadael y Brifysgol sicrhau bod darpariaethau priodol yn cael eu gwneud o fewn eu Sefydliad, Ysgol neu Adran i gadw, storio a darparu mynediad parhaus at eu data ymchwil, cofnodion neu samplau ymchwil (boed hynny'n rhai dynol neu fel arall). Bydd aelod o staff yr Ysgol/Sefydliad/Adran yn cael ei nodi i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddata, cofnodion neu samplau'r ymchwil. Yn ddiofyn, bydd y cyfrifoldeb hwn yn dychwelyd i Bennaeth yr Ysgol, yr Adran neu'r Sefydliad Ymchwil os na nodir enw unrhyw aelod arall o staff.

Rhaid i staff sy'n dymuno cadw data ymchwil, cofnodion neu samplau ymchwil ar ôl iddynt adael y Brifysgol, wneud yn siŵr bod yr holl weithdrefnau a gofynion priodol yn cael eu dilyn. Yn benodol, rhaid i staff ymchwil hysbysu ac ymgynghori â'u Hysgol/Sefydliad/Adran cyn cymryd data ymchwil, cofnodion neu samplau. Rhaid iddynt hefyd gydymffurfio â thelerau unrhyw gytundeb ariannu (neu gytundeb arall) sy'n ymwneud ag eiddo deallusol a/neu drosglwyddo deunydd o'r fath. Ceir cyngor pellach yn y maes hwn gan Wasanaethau Ymchwil ac Arloesedd.

Lle cynhwysir Data Personol yn y data ymchwil neu gofnodion, rhaid i staff ofyn am gymeradwyaeth gan bennaeth/prif ymchwilydd y prosiect (neu reolwr llinell, os mai'r prif ymchwilydd sy'n gadael) a fydd efallai'n ymgynghori â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol (a leolir yn Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol) cyn symud y cofnodion gwreiddiol neu gopiau. Rhaid i unrhyw Ymchwilydd sy'n dymuno cadw samplau meinweoedd dynol, ymgynghori â Thîm Cydymffurfio â'r Ddeddf Meinweoedd Dynol.

Lle bo'n berthnasol, bydd angen hefyd i staff drafod trefniadau ar gyfer rheoli unrhyw grantiau ymchwil cyfredol a hysbysu'r Pennaeth Grantiau Ymchwil am unrhyw drefniadau y cytunwyd arnynt fel y gellir rhoi contractau priodol ar waith. Rhaid i staff ymlynu wrth unrhyw bolisiau lleol eraill sy'n ymwneud â chmau gweithredu wrth adael y Brifysgol.

#### 3.19.2 Myfyrwyr

Lle bo'n berthnasol, rhaid i fyfyrwyr ymchwil sy'n gadael y Brifysgol ymgynghori â'u Goruchwyliwr i sicrhau bod darpariaethau priodol yn eu lle o fewn eu Sefydliad, Ysgol neu Adran i gadw, storio a darparu mynediad parhaus at eu data ymchwil, cofnodion neu samplau ymchwil. Bydd aelod o staff yr Ysgol/Sefydliad Ymchwil/Adran yn cael ei nodi i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am unrhyw ddata, cofnodion neu samplau ymchwil sydd ar ôl yn y Brifysgol. Yn ddiofyn, bydd y cyfrifoldeb hwn yn dychwelyd i Oruchwyliwr y myfyriwr os na nodir enw aelod arall o staff.

Fel mater o arfer gorau, mae'n rhaid i ymchwilwyr sy'n fyfyrwyr geisio hwyluso mynediad agored at eu data ymchwil lle bo hynny'n bosibl, a chydymffurfio ag unrhyw ofynion ariannwr sy'n ymwneud â data agored. Cyfeiriwch at [2.3](#) a [3.2.4](#) am ragor o wybodaeth neu cysylltwch ag [opendata@caerdydd.ac.uk](mailto:opendata@caerdydd.ac.uk).

Rhaid i fyfyrwyr sydd am gadw eu data ymchwil, cofnodion neu samplau ymchwil ar ôl iddynt adael y Brifysgol wneud yn siŵr nad oes unrhyw gyfyngiad yn eu cytundeb cyllido neu gytundebau eraill (e.e. gyda'r Brifysgol), a fyddai'n eu hatal rhag gwneud hynny. Rhaid i fyfyrwyr hefyd hysbysu ac ymgynghori eu Goruchwyliwr cyn cymryd data ymchwil, cofnodion neu samplau, gan fod perchnogaeth (a mewnbwn deallusol i greu) data, cofnodion a samplau o'r fath yn aml yn gymhleth. Ceir cyngor pellach yn y maes hwn gan Wasanaethau Ymchwil ac Arloesedd.

Lle mae Data Personol wedi'i gynnwys yn y data ymchwil neu gofnodion, rhaid i fyfyrwyr geisio cymeradwyaeth gan y pennaeth/prif ymchwilydd neu oruchwyliwr y prosiect a fydd efallai'n ymgynghori â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol (a leolir yn Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol) cyn symud y cofnodion gwreiddiol neu gopiâu. Rhaid i unrhyw fyfyrwr ymchwil sy'n dymuno cadw samplau meinweoedd dynol, ymgynghori â Thîm Cydymffurfio â'r Ddeddf Meinweoedd Dynol.

Rhaid i fyfyrwyr ymlynu wrth unrhyw bolisiâu lleol eraill sy'n ymwneud â chymau gweithredu wrth adael y Brifysgol.

#### **4. Datganiad i gloi**

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn ceisio atgyfnerthu diwylliant proffesiynol, agored a gonest uniondeb sydd eisoes yn amlwg yn y Brifysgol, heb amharu ar yr ymdrech sylfaenol o wella gwybodaeth a dealltwriaeth.

Rhaid cydymffurfio â phob safon allanol sy'n berthnasol i'r ymchwil ac unrhyw ofyn perthnasol gan randdeiliaid, yn ogystal â chyfraith gyffredin y Brifysgol a rhwymedigaethau statudol.

#### **5. Adolygiad a Chydnabyddiaethau**

Bydd y Cod Ymarfer hwn yn cael ei adolygu bob tair blynedd o leiaf gan y tîm Uniondeb Ymchwil, Llywodraethu a Moeseg a'r Pwyllgor Moeseg ac Uniondeb Ymchwil Agored (ORIEC).

Mae Prifysgol Caerdydd yn cydnabod yn ddiolchgar UKRIO, UKRI a'r holl sefydliadau y cyfeirir atynt yn y Cod Ymarfer hwn am gynhyrchu adnoddau a fydd yn cefnogi ac yn galluogi Ymchwilwyr i gynnal ymchwil i'r safonau uchaf o uniondeb ac a helpodd gyda chynhyrchu'r ddogfen hon.

**Atodiad 1: Deunydd Ffynhonnell a Pholisïau a Chanllawiau Cysylltiedig****Adnoddau Uniondeb Ymchwil eang/cyffredinol**

|                                                                                                                     |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <a href="#">Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil</a>                                                                |
| <a href="#">Hyfforddiant Uniondeb Ymchwil</a> CU                                                                    |
| <b>I Staff:</b> Maes mewnwyd <a href="#">cywirdeb ymchwil a llywodraethu</a> (adnoddau amrywiol)                    |
| <b>I Fyfrwyr:</b> Maes mewnwyd <a href="#">cywirdeb ymchwil a llywodraethu</a> (adnoddau amrywiol)                  |
| <a href="#">Cod Ymarfer UKRIO ar gyfer Ymchwil</a> a <a href="#">Rhestr Wirio a Argymhellir ar gyfer Ymchwilwyr</a> |
| <a href="#">PolisiUKRIar LywodraethuArferDaYmchwil</a>                                                              |
| Canllawiau <a href="#">Cynnal Ymchwil yn Gyfrifol</a> Ymddiriedolaeth Wellcome                                      |
| Prifysgol Erasmus Rotterdam; <a href="#">Gêm Cyfyng-gyngor: Proffesiynoldeb a Uniondeb mewn Ymchwil</a>             |
| <a href="#">Pecyn cymorth uniondeb ar waith</a> y Gymdeithas Frenhinol ac UKRIO                                     |

**Adnoddau allweddol sy'n benodol i'r pwnc**

| Pwnc                                                                                     | Adran(nau) Cod Ymarfer                                                                                                       | Adnoddau/dolenni                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |
|------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Ymchwil Anifeiliaid                                                                      | 2.4 Gofal a Pharch<br>3.3 Gofynion Moesegol<br>3.8 Ymchwil sy'n Cynnwys Anifeiliaid                                          | Tudalen we <a href="#">Ymchwil Anifeiliaid</a> CU (adnoddau amrywiol)                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
|                                                                                          |                                                                                                                              | Canllawiau'r Swyddfa Gartref; <a href="#">Profion ac ymchwil anifeiliaid</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|                                                                                          |                                                                                                                              | <a href="#">Concordat ar Onestrwydd Ynghylch Ymchwil Anifeiliaid yn y DU</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
| Awduraeth a Chyfraniad                                                                   | 3.17 Cyhoeddiadau ac Awduraeth                                                                                               | <a href="#">Arfer da UKRIO mewn ymchwil: Awduraeth</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|                                                                                          |                                                                                                                              | Canllaw COPE - <a href="#">Sut i ymdrin ag anghydfodau awduraeth: canllaw i ymchwilwyr newydd</a> a <a href="#">Beth a ystyrir yn awduraeth?</a>                                                                                                                                                                                                                               |
|                                                                                          |                                                                                                                              | <a href="#">Tacsonomeg Rolau Cyfranwyr</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| Ymddygiad<br><br>Gweler <i>Hyfforddiant a Goruchwyliaeth/Arweinyddiaeth</i> hefyd        | 2.5 Atebolrwydd a Chyfrifoldeb<br>3.1 Arweinyddiaeth a Goruchwyliaeth<br>3.2.1 Cyfrifoldeb Ymchwilwyr Arweiniol/Goruchwylwyr | <a href="#">Polisi Urddas yn y Gwaith ac Wrth Astudio</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
|                                                                                          |                                                                                                                              | Tudalen fewnwyd <a href="#">Cyfrifoldebau a Disgwyliadau</a> Myfyrwyr a Goruchwylwyr                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|                                                                                          |                                                                                                                              | <b>Ar gyfer Staff:</b> yr <a href="#">'Academydd Caerdydd'</a> a <a href="#">Disgwyliadau Perfformiad</a>                                                                                                                                                                                                                                                                      |
|                                                                                          |                                                                                                                              | <b>I Staff:</b> Tudalennau mewnwyd <a href="#">Lles a Chymorth</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
|                                                                                          |                                                                                                                              | <b>I Fyfrwyr:</b> Tudalennau mewnwyd <a href="#">Iechyd a Lles</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
| Llwgwrwobr/Twyll                                                                         | 3.11 Gwrth-Lwgrwobrwyo, Atal Twyll a Gwrth-Lygredd                                                                           | <b>I Staff:</b> Tudalennau <a href="#">Ymdrin â chwynion</a> a <a href="#">Datrys problemau yn y gweithle</a>                                                                                                                                                                                                                                                                  |
|                                                                                          |                                                                                                                              | <a href="#">Polisi Gwrth-Lwgrwobrwyo PC</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
| Ymchwil Glinigol                                                                         | 3.3 Gofynion Moesegol<br>3.9 Ymchwil Clinigol                                                                                | <a href="#">Polisi Atal Twyll PC</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|                                                                                          |                                                                                                                              | <a href="#">Fframwaith Polisi'r DU ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
|                                                                                          |                                                                                                                              | <b>I Staff:</b> <a href="#">Cynnal ymchwil yn y GIG</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
|                                                                                          |                                                                                                                              | <b>I Fyfrwyr:</b> <a href="#">Cynnal ymchwil yn y GIG</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
|                                                                                          |                                                                                                                              | Canllawiau PC ar <a href="#">Dreialon Clinigol Cynhyrchion Meddyginiaethol Ymchwiliadol</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
|                                                                                          |                                                                                                                              | <b>*NODER*</b> Mae'r canllawiau ar y dudalen uchod yn y broses o gael eu diweddarau i adlewyrchu deddfwriaeth newydd. Cofiwch drin unrhyw ganllaw gan y Brifysgol sy'n ymwneud â Rheoliadau Meddyginiaethau at Ddefnydd Pobl (Treialon Clinigol) 2004 â gofal a gofynnwch am gyngor gan <a href="mailto:resgov@caerdydd.ac.uk">resgov@caerdydd.ac.uk</a> os nad ydych yn siŵr. |
|                                                                                          |                                                                                                                              | Tudalennau gwe <a href="#">Awdurdod Ymchwil Iechyd</a> ac <a href="#">Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru</a>                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|                                                                                          |                                                                                                                              | <a href="#">Datganiad Cymdeithas Feddygol y Byd Helsinki</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|                                                                                          |                                                                                                                              | Rhestr WHO o <a href="#">Brif gofrestrfeydd</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
| <a href="#">Rhestr CMJE</a> o Gronfeydd Data sydd at Ddefnydd y Cyhoedd                  |                                                                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
| Gweithio ar y cyd – Gweler yr adrannau <i>Ymchwil Dramor</i> ac <i>Ymchwil Dibynadwy</i> |                                                                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
|                                                                                          | 2.2 Agwedd Agored                                                                                                            | <b>I Staff:</b> <a href="#">Ffurflen Canllaw Datgelu Buddiant</a> PC                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |



|                                                                                     |                                                                                                      |    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|-------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Gwrthdaro rhwng Buddiannau</b>                                                   | 3.10 Gwrthdaro Buddiannau                                                                            | ac | <a href="https://www.cardiff.ac.uk/public-information/policies-and-procedures/research-integrity-compliance-with-external-conflict-of-interest-requirements">https://www.cardiff.ac.uk/public-information/policies-and-procedures/research-integrity-compliance-with-external-conflict-of-interest-requirements</a> Cydymffurfio â Pholisi Gofynion Gwrthdaro Rhwng Buddiannau Allanol <a href="#">PC</a> |
|                                                                                     |                                                                                                      |    | <a href="#">Cyfrifoldebau Awdur ICMJE – Gwrthdaro rhwng Buddiannau</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
|                                                                                     |                                                                                                      |    | Canllaw y Panel Cynghorwyr Moeseg Ymchwil Cenedlaethol ar <a href="#">Wrthdaro rhwng Buddiannau/Buddiannau sy’n Cystadlu</a>                                                                                                                                                                                                                                                                              |
| <b>Ymgynghori</b>                                                                   | 2 Gwerthoedd Ymddygiadau Craidd                                                                      | ac | <b>I Staff:</b> <a href="#">Masnachu ymchwil drwy ddarparu gwasanaeth ymgynghori</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| <b>Diogelu Data</b><br><br>Gweler <b>Rheoli Data a Chofnodion Ymchwil</b> hefyd     | 3.4 Rheoli Data Ymchwil a Chofnodion<br>3.5 Diogelu Data                                             | a  | <a href="#">Polisi Diogelu Data</a> <a href="#">PC</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
|                                                                                     |                                                                                                      |    | <b>I Staff:</b> Tudalennau mewnwyd <a href="#">Casglu data personol mewn ymchwil a Diogelu Data</a> (adnoddau amrywiol)                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|                                                                                     |                                                                                                      |    | <b>I Fyfrwyr:</b> Tudalen <a href="#">Rheoli a rhannu eich data</a> (adnoddau amrywiol) a'r <a href="#">Canllaw i GDPR ac Ymchwil</a>                                                                                                                                                                                                                                                                     |
|                                                                                     |                                                                                                      |    | <a href="#">Beth yw data personol?   ICO</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
| <b>Swyddogaethau golygyddol – gweler yr adran <a href="#">Cyhoeddiadau</a> isod</b> |                                                                                                      |    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
| <b>Ymgysylltu ac Effaith</b>                                                        | 2 Gwerthoedd Ymddygiadau Craidd                                                                      | ac | <b>I Staff:</b> Tudalennau <a href="#">Ymchwil Ymgysylltu ac Effaith</a> (adnoddau amrywiol) a thudalen we <a href="#">Cyllid ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu ac effaith</a><br><b>I Fyfrwyr:</b> <a href="#">Cyfranogiad y cyhoedd ac ymgysylltiad â'r cyhoedd (MEDIC)</a>                                                                                                                              |
| <b>Cydraddoldeb ac Amrywiaeth</b>                                                   | 2.4 Gofal a Pharch<br>3.1 Arweinyddiaeth Goruchwyliaeth<br>3.6 Cydraddoldeb, Amrywiaeth Chynhwysiant | a  | <a href="#">Tudalen we a pholisi 'Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant'</a> <a href="#">PC</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|                                                                                     |                                                                                                      |    | <b>I Staff:</b> Canllaw <a href="#">Cydraddoldeb mewn Ymchwil</a> ac meysydd mewnwyd <a href="#">cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant</a> (adnoddau amrywiol)                                                                                                                                                                                                                                          |
|                                                                                     |                                                                                                      |    | <b>I Fyfrwyr:</b> Canllawiau <a href="#">Cydraddoldeb mewn Ymchwil</a> a meysydd mewnwyd <a href="#">Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant</a> (amrywiol adnoddau)                                                                                                                                                                                                                                      |
|                                                                                     |                                                                                                      |    | Canllawiau EHRC ar <a href="#">nodweddion gwarchodedig</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
| <b>Moeseg (cyffredinol)</b>                                                         | 3.1 Arweinyddiaeth Goruchwyliaeth<br>3.3 Gofynion Moesegol                                           | a  | <b>I Staff:</b> <a href="#">Tudalennau gwe Moeseg Ymchwil</a> (adnoddau amrywiol)<br><b>I Fyfrwyr:</b> <a href="#">Tudalennau gwe Moeseg Ymchwil</a> (adnoddau amrywiol)<br>Mae'r ddau uchod yn cynnwys y Polisi Moeseg ar gyfer Ymchwil Dynol a thempled o Daflen Wybodaeth a Ffurflen Gydsynio i Gyfranogwyr.                                                                                           |
|                                                                                     |                                                                                                      |    | <a href="#">Rhestr o Swyddogion Moeseg Ysgolion/Pwyllgorau Moeseg Ymchwil Ysgolion</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
|                                                                                     |                                                                                                      |    | Canllawiau <a href="#">Moeseg Ymchwil</a> UKRI, gan gynnwys Fframwaith Moeseg yr ESRC                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
|                                                                                     |                                                                                                      |    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
| <b>Rheolyddion Allforio</b>                                                         | 3.15 Rheoli Allforio                                                                                 |    | <b>I Staff:</b> <a href="#">Tudalen fewnwyd rheolyddion allforio</a> (adnoddau amrywiol)<br><b>I Fyfrwyr:</b> Tudalen fewnwyd <a href="#">rheolyddion allforio</a><br><a href="#">Rheolyddion allforio sy'n berthnasol i ymchwil academiaidd - GOV.UK (www.gov.uk)</a>                                                                                                                                    |
